PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 451 | Medi 2022



Dwbwl dwbwl i Davies

t.14



Blwyddyn eithriadol Y Cylch Cinio

t.21

CFfI Tal-y-bont

t.11



# Priodasau





Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elin Lloyd Wallace, Troed-y-rhiw a Rhodri Gwynant Jones, Pen-y-groes, Caernarfon ar eu priodas yng Nghapel Caersalem, Caernarfon ac yna yng ngwesty Bron Eifion, Cricieth ar 28 Gorffennaf. Mae Rhodri yn ffisiotherapydd strôc yn Ysbyty Gwynedd ac Elin yn athrawes Ffrangeg yn Ysgol Botwnnog. Maent yn ymgartrefu yn Twthill, Caernarfon.

## Diolch am nawdd




Diolch enfawr i Sterling Asset Management ac A1 Property sydd wedi noddi cit Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch. Yn y llun gwelir Eifion Thomas, Gary Lewis, a Rob Mills.

Ar y 25ain o Fehefin priodwyd Aled George Lewis a Cerys Humphreys, Ystrad, Capel Bangor yng nghapel Horeb, Penrhyn-coch. Gweinyddwyd gan y Parchg Peter Thomas a rhoddwyd y briodferch i ffwrdd gan Tomos a Sion Williams, Llangristiolus, Sir Fôn. Y morwynion oedd Megan, Efanna, Manon ac Elsi. Mwynhawyd y wledd gyda teulu a ffrindiau yn y Maesbangor, Capel Bangor. Llongyfarchiadau mawr iddynt a phob dymuniad da i'r dyfodol.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG

# dyddiadur

**RHIFYN HYDREF Dyddiad cau** Hydref 7; **Dyddiad cyhoeddi** Hydref 19

**MEDI 15** Nos Iau Mynediad am Ddim a Dewi Pws (anaddas i blant) yn y Neuadd Fawr

**MEDI 17** Dydd Sadwrn Eisteddfod Cwmystwyth yn Siloa, Cwmystwyth 0 1.30 ymlaen

**MEDI 17** Dydd Sadwrn Te prynhawn Ffrindiau Cartref Tregerddan yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 2.30. Mynediad £3 oedolion £1.50 plant Elw i Gartref Tregerddan

**MEDI 18** Dydd Sul Taith tractorau tuag at Ysgol Penrhyn-coch

**MEDI 20** Nos Fawrth OPRA Cymru yn cyflwyno Cyfr?nach y brenin yng Nghanolfan y Celfyddydau am 6.30

**MEDI 20** Nos Fawrth Gwasanaeth conffyrmasiwn a thrwyddedu y Parchedig Lynn Rees yn Eglwys Padarn Sant, Llanbadarn Fawr am 6.00

**MEDI 21** Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Caryl Lewis yn festri Horeb am 7.30

**MEDI 24** Dydd Sadwrn Arddangosfa gwaith llaw, Cymdeithas Brodwaith Cymru yng Nghanolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth. rhwng 10.30 a 4.00. Croeso i bawb.

**MEDI 24** Dydd Sadwrn Taith gerdded Cered yng Ngwmbrwyno. Cychwyn o Ganolfan Ymwelwyr Bwlchyrarian am 10.30. Am fwy o fanylion cysyllter â steffan.rees@ceredigion.gov.uk

**MEDI 30** Nos Wener Darlith Waldo 2022: Plentyn y ddaear: darlithydd John Gwilym Jones am 5.30 Ar-lein ac yn Ystafell y Cyngor LLGC Gweinir te a choffi o 5.00. I archebu tocyn neu i ymuno ar-lein cysylltwch â cymraeg@aber.ac.uk 01970 622021

**HYDREF 2** Nos Sul Cymanfa ganu i ddathlu 200 ml Ieuan Gwyllt yng Nghapel Pen-llwyn am 5.00 Arweinyddion: Mrs Margaret Daniel a Dr Rhidian Griffiths Cyfeilydd: Mr Alan Wynne Jones. Dewch yn llu i ganu ac i rannu. Bydd rhaglen ar gael wrth y drws.

**HYDREF 9** Dydd Sul Taith tractor o 10.00 yb -1.00 yp Cychwyn a gorffen yn Rhydypennau SY24 5AA Lluniaeth ar y diwedd a raffl. Tractor /4x4 £10 Codi arian i Uned Cemotherapi a Beiciau Gwaed Cymru. Ymholiadau: Nia 07968652822

**HYDREF 14-15** Nos Wener a dydd Sadwrn Gŵyl Gerallt yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth

**HYDREF 15** Nos Sadwrn Côr Meibion De Cymru yn Eglwys Llanbadarn Fawr

**HYDREF 15** Nos Sadwrn Cyngerdd - Côr Meibion De Cymru gyda Côr Meibion Aberystwyth, Bois y Fro a Chôr Ysgol Pen-glais yn Eglwys Llanbadarn Fawr am 7.30 Tocynnau: £12.50

**HYDREF 19** Nos Fercher Dafydd Morris Jones – A oes dyfodol i ffermwyr yr ucheldir? Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**HYDREF 21** Nos Wener Cymdeithas Lenyddol y Garn – noson agoriadol yn festri'r Garn 'Geiriau'n chwerthin: Tegwyn Jones' – gyda'r Athro Geraint H. Jenkins. Bydd y drysau ar agor o 6.30 o'r gloch ymlaen am luniaeth ysgafn, sgwrs a chyfle i ymaelodi, a bydd y sgwrs yn dechrau am 7.30 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb; tâl aelodaeth am y tymor: £5

**HYDREF 22** Nos Sadwrn Ysgol Gerdd Maldwyn yn cyflwyno Y Mab Darogan yn y Neuadd Fawr am 8.00.

YTincer@googlemail.com

# 30 mlynedd yn ôl



Gorchwyl olaf y Parchedig Elwyn Pryse yng Nghapel Gerlan cyn ymddeol, yn bedyddio dau o wyrion John a Thelma Lloyd, Werndeg. Llun : Nansi Hayes. O *Dincer* Medi 1992) Cofion cynnes at Thelma Lloyd yn y Bontnewydd, Caernarfon – lle roedd yn dathlu ei phen blwydd yn 90 oed ddechrau Medi. Ac am y rhai fedyddiwyd - mae John Richard (mab Sioned) yn byw yn y Bontnewydd ac yn gweithio efo IT ac yn dad i ddau fachgen bach. Mae Rachael yn byw yn Eastleigh a newydd gael merch fach.

# Côr Meibion Aberystwyth

Ar ôl bwlch o dair blynedd oherwydd Covid, yn ddiweddar mae'r côr wedi ail ddechrau canu'n gyhoeddus trwy berfformio yn y Bandstand ar y prom.  O dan arweiniad Alwyn Evans a chyfeiliant gan Elenid Thomas, Penrhyn-coch, cafwyd croeso cynnes gan y gynulleidfa. Dechreuwyd y rhaglen o ganeuon gyda *Gweddi Affricanaidd*, addasiad poblogaidd *Nkosi Sikele-le,* ac fe ddaeth i ben gyda *'American Trilogy'*, medli o alawon gwerin a anfarwolwyd gan Elvis Presley. Perfformiwyd eitemau unigol gan Alun John (*Bendigaid y tŷ hwn, Cân yr Arad Goch*) ac Alwyn Evans (*Hen Fam Hubbard ac Anfonaf Angel*). Hywel Wyn Jones oedd y cyflwynydd.

Yna, ar ddydd Mawrth yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, cafodd y côr y fraint o berfformio ar 'Llwyfan y Maes'. Er gwaetha'r tywydd llaith ymgasglodd tyrfa dda i wrando ar raglen o ddeg o ganeuon gan gynnwys *Nant y Mynydd, O Gymru, Y Darlun, Pan Fo'r Nos yn Hir* a *Benedictus.*

Ar y 15fed o Hydref, bydd y côr yn canu yn Eglwys Llanbadarn Fawr gyda Côr Meibion De Cymru ac ar y 18fed o Dachwedd yng Nghyngerdd Rhys Meirion yn y Neuadd Fawr, Pen-glais. Mae'r côr yn awyddus i ehangu ei niferoedd ac mae'n estyn croeso cynnes i unrhyw un a diddordeb i fynychu ei sesiynau ymarfer a gynhelir bob nos Iau yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth, neu ar ddydd Iau diwetha'r mis yn y Ship and Castle.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

# CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mehefin 2022

**£25** (Rhif 244) D Bryn Lloyd, Cwm Eithin, 15 Heol Mabon, Caerdydd
**£15** (Rhif 103) Bryn Roberts, Cilgwyn, 5 Brynmeillion, Bow Street
**£10** (Rhif 52) Hedydd Cunningham, Tyddyn Pen y Gaer, Llandre

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd. Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost **m.e.bebb@talk21.com**




BRIDGE HOUSE CLEARANCE

Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim

f 07792457816/01974 261758

**Diolch**
Hoffai Nia Gore ddiolch i bawb gefnogodd ei bore coffi dydd Sadwrn 10 Medi – codwyd £1700.45 i Uned Cemotherapi Bron-glais a Beiciau Gwaed Cymru.

# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Mart Aberystwyth Gorffennaf ac Awst**
**Cofnod 1208 16 Gorffennaf**
Nifer llai ond gwerthwyd y defaid i gyd. Roedd y fasnach ychydig yn well ar y mamogiaid ond yn dal yn fasnach arbennig gyda llawer o brynwyr yn bresennol. Roedd y prisiau fel a ganlyn.
Defaid lladd (777) Amcg £66.89. Mwy £135 gan Lewis, Tŷ Llwyd, Pennant.
Hyrddod (23) Amcg £93.39. Mwy £160 gan Davies, Bryntudur, Penegoes.
Ŵyn blwydd (46) Amcg £79.60. Mwy £115 gan Griffiths, Nantybenglog, Capel Seion.
Ŵyn (373) Amcg £84.20. Mwy £133 gan Hulme, Penciog, Llangwyryfon.
Prisiau da heddiw fel yr uchod. Bydd y sêl nesaf mewn pythefnos. Diolch am y gefnogaeth.

13 Awst Cofnod 1476, a chliriad llwyr.
Masnachu da ar y mamogiaid, yn enwedig y rhai cigog (meatier). Roedd yna alw mawr am famogiaid magu, ond dim llawer yn cael eu cynnig.

O ystyried y tywydd poeth, fe werthodd yr wyn stor yn arbennig o dda, yn enwedig y rhai cryfaf, mwyaf cigog gyda'r wyn cryfaf yn gwerthu dros £85.

Cwlins mamogiaid (658) Amcg £48 Mwy£96 gan Davies , Brynglas.

Cwlins hyrddod (2) Amcg £78, Mwy £138 gan Jones , Abercwmdolau.



Ŵyn stôr (630) Amcg £68 mwy £113.50 gan Hopkins, Hafodlas Uchaf.

Defaid magu (134) Amcg £67.60 Mwy £100 gan K. Earl, Pengraig, Darowen.

Prisiau fel yr uchod. Diolch i'r cynhyrchwyr a'r prynwyr am eich cefnogaeth.

27 Awst Cofnod 2138
Roedd mwy nag arfer ar werth gyda masnachu gwych ar y mamogiaid magu a lladd. Roedd yr wyn stor yn anodd i'w gwerthu, gyda rhai heb eu gwerthu. Llwyddwyd i werthu yr wyn tew ond fe effeithiodd y sychder ar brisiau heddiw.
Prisiau fel a ganlyn:
Mamogiaid magu (287) Amc £84.50. Mwy £130 gan Lloyd, Byrdir, Uwchygarreg.
Brokers (762) Amc £52.40. Mwy £124 gan Jones, Maesbeidiog.
Hyrddod (15) Amc £82. Mwy £122 gan James, Cerrigcarranau Isaf.
Ŵyn stôr (1074) Amc £64.80. Mwy £110 gan Evans, Cleveland Avenue, Tywyn.

Diwrnod digon da eto ar y defaid ond yr wyn yn anoddach i'w gwerthu – a heb lawer o alw amdanynt oherwydd y tywydd sych.

Diolch i chi brynwyr a chynhyrchwyr am eich cefnogaeth.

**Arholiadau**
Llongyfarchiadau i Martha Rowlands, Cwm Main, ar ei llwyddiant yn yr arholiadau TGAU a phob hwyl yn dilyn cwrs Amaeth yng Ngholeg Glynllifon.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â David a Cynthia Binks a'r teulu, Trysor, ar farwolaeth mam David – Dilys Binks – ym Mhenrhyn-coch ar Awst 30.

**Pen blwydd arbennig**
Ar y 7fed o Fedi dathlodd David Evans, Murmur y Coed, Capel Dewi, ben blwydd arbennig yn 90 oed. Gobeithio iddo fwynhau yr achlysur a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

**Newid a dechrau ysgol**
Pob hwyl ar gyfer y dyfodol i Lleucu ap Llywelyn, Rhydyceir ac Elan Rowlands, Cwm Main, yn Ysgol Penweddig ac i Nanw ap Llywelyn yn Ysgol Penrhyn-coch.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Gwyneira Morris ar golli ei brawd Stanley Pugh, ac yn frawd yng nghyfraith i Myfanwy Pugh, Fron Ddewi. Treuliodd Stanley ei oes yn ffermio yn y Fronfraith gyda'i frodyr cyn symud i ymddeol i Gilcennin. Ar y 3ydd o Awst cynhaliwyd gwasanaeth angladdol yn Eglwys y Drindod, Cilcennin.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com




Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

## Aber-ffrwd

Mae tymor yr haf wedi bod yn un prysur iawn yn yr ardal. gyda tua dwsin o dai gwyliau yn yr ardal mae y ffyrdd cul yn brysur iawn a mae yna bobl o bob rhan o'r byd yn ymweld â ni. Mae y Tŷ Gloyn Byw wedi cael tymor da iawn ond mae yn od iawn heb baned o de yng Nghanolfan Groeso Statkraft.

**Lansio Llyfr**

Bu Llenni Lawlor Penffrwd yn brysur iawn yn ddiweddar yn ysgrifennu llyfr i blant *Y Sioe*. Mae wedi ei selio ar deulu Penffrwd sef Myfi, Ladi y Shetland a Rwdlan y ci. Cafodd ei lansio ym Mhenffrwd ym mis Gorffennaf gyda phlant Cylch Meithrin a dosbarth derbyn Ysgol Pen-llwyn yn bresennol. Bu un o Atebol yn darllen y stori a chafwyd picnic bach i orffen.

Mi roedd yn fore pleserus iawn gyda y tywydd yn berffaith ar gyfer yr achlysur. Yn ôl y sôn mae yn lyfr poblogaidd iawn, edrych ymlaen i'r nesaf !!

**Sioeau yr ardal**

hyfryd iawn yw gweld y sioeau bach yn ol eleni ac mae llawer o bobl yr ardal wedi cael amser llwyddiannus iawn. Llongyfarchiadau i bawb a fu yn cystadlu. Bu llawer o bobl yr ardal yn cystadlu yn Sioe Capel Bangor a hefyd yn brysur iawn yn paratoi y cae ac yn stiwardio ar y dydd. Diolch o galon i bawb am roi o'i amser i wneud y Sioe yn un mor llwyddiannus.

Bu Myfi Mon a Ladi yn llwyddiannus iawn yn Sioe Llanilar a Tal-y-bont a hefyd Nerys Daniel gyda ebol Hewid yn ennill yr ebol gorau yn Sioe Capel Bangor am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae ceffylau Gwedd Rheidol hefyd wedi cael dipyn o lwyddiant yn ddiweddar yn y sioeau ac yn arwerthiant misol Llanybydder pryd y cafwyd y pris uchaf mwy nag unwaith.




Gorsaf Aber-ffrwd ar ei newydd wedd

**Priodas**

Dymuniadau gorau i Robin a Heather, Y Ddôl, ar eu priodas yn Eglwys Capel Bangor dechrau'r mis.

**Gwellhad**

Mae Dafydd Morris, Neuadd Parc, wedi cael llawdriniaeth ar ei benglin ddechrau y mis. Edrychwn ymlaen i 'w weld yn ôl o amgylch y ffarm yn fuan iawn.




Jessica Wise darlunwraig y lluniau yn y llyfr gyda Rwdlan a Ladi ser y llyfr

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones

GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

## Dôl-y-bont

**Newid aelwyd**

Dymunwn yn dda i'r teulu Standing sydd wedi symud o Glangro i fyw yn Nhre'r-ddôl. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd.Edrychwn ymlaen at gael croesawu teulu newydd i Glangro yn fuan.

**Brawd a chwaer llwyddiannus**

Llongyfarchiadau i Tirion Sedgewick, Tynsimdde ar ei llwyddiant ym mabolgampau ysgol Penweddig gan ennill gwobr Victrix Ludorum i ddisgyblion blwyddyn 9. Llongyfarchiadau hefyd i'w brawd Gruff ar ennill gwobr Victrix Ludorum blwyddyn 7 mabolgampau Penweddig. Gruff hefyd oedd Chwaraewr y rheolwr i dim dan 12 oed Academi Pêl-droed Aberystwyth y tymor diwethaf. Da iawn chi eich dau.

# Llandre

**Gorsedd**
Llongyfarchiadau i Wynne Melville Jones ar gael ei dderbyn i'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron yn ddiweddar.

**Arholiadau**
Llongyfarchiadau i Elin a Mari Morgan, Maes Mieri, ar basio TGAU a lefel A eleni.  Bydd Elin yn awr yn mynd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Penweddig a Mari ymlaen i astudio Cymraeg a Newyddiaduraeth ym Mhriysgol Caerdydd. Pob llwyddiant i'r ddwy.

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus i Alison Mason, Gors Villa, Llandre ar gyrraedd 50 oed yn ddiweddar.

**Lefel A**
Llongyfarchiadau i Eben Evans ar ei ganlyniadau lefel A a hwyl ar ei gwrs Bioleg yng Nghaerdydd.

ac i Glain Llwyd ar ei chanlyniadau lefel A. Pob hwyl ar y cwrs perfformio yng Nghaerdydd.

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Eleri Griffiths ar raddio gyda dobarth cyntaf yn y gyfraith.



**Graddio**
Llongyfarchiadau I Shaun Wyn Jones, Bronallt, sydd wedi graddio o Brifysgol Abertawe mewn Busnes a Chyllid.



**Llongyfarchiadau mawr i Gwmni Licris Olsorts am ddod yn ail yng nghystadleuaeth actio drama fer yn yr Eisteddfod yn Nhregaron. Enillodd Gweni King dlws yr actor gorau.**




**Anrhegu**
Llongyfarchiadau mawr i Geraint ac Eiry Williams, Clos y Ceiliog, ar ddathlu carreg filltir go arbennig yn ddiweddar – bu Geraint ar staff y Cyngor Llyfrau am 45 mlynedd ac Eiry am 40 – tipyn o record! Dyma nhw gyda'r rhoddion dderbyniodd y ddau fel arwydd o werthfawrogiad gan weddill y staff. Pob dymuniad da i'r ddau i'r dyfodol!

## Cyngor Cymuned **Geneur Glyn**

Cynhaliodd Llandre ei Diwrnod Agored Tennis cyntaf ar ddydd Sul Awst 14eg i nodi ailagor swyddogol Cyrtiau Llandre yn dilyn y gwaith o atgyweirio difrod y storm a gafwyd yn ôl ym mis Tachwedd 2021. Er gwaetha'r tymheredd eithafol, gwelwyd 40 o blant wedi eu rhannu'n ddau gategori oedran (4-8oed / 9-16oed) yn mynychu'r sesiwn. Trefnwyd y weithgaredd gan Gyngor Cymuned Genau'r Glyn mewn partneriaeth gyda We Do Tennis, cwmni buddiant cymunedol sy'n darparu hyfforddiant tennis a chefnogaeth ar draws y Deyrnas Gyfunol – We Do Tennis C.I.C.

Mae cyrtiau Llandre yn gyfleuster poblogaidd sy'n cael defnydd da, nid yn unig gan y gymuned leol ond hefyd gan nifer o'r pentrefi cyfagos yng ngogledd Ceredigion, gan gynnwys Bow Street, Tal-y-bont a'r Borth. Ym mis Tachwedd 2021 chwalwyd y ffens a'r wal gefn gan wyntoedd cryfion Storm Arwen, gan adael y cyrtiau yn anniogel



i'w defnyddio yn ystod gwanwyn ac haf 2022. Dan arweiniad Cyngor Cymuned Genau'r Glyn, rhoddwyd y contract o atgyweirio'r difrod i gwmni Afan Construction, a bellach mae'r cyrtiau nôl yn gyflawn.

Dywedodd Peter James, trefnydd y digwyddiad – 'Roedd yn wych gweld cymaint o ddiddordeb yn y Diwrnod Agored a'r plant yn mwynhau eu hunain tra'n datblygu eu sgiliau o dan arweiniad arbenigol Nikki a Tim o We Do Tennis. Mae'r cyrtiau yma wedi gweld llawer o ddefnydd ac wedi cynhyrchu nifer o chwaraewyr talentog dros y blynyddoedd. Mae'r lefel o ddiddordeb a welwyd yn galonogol iawn, a hynny ar gyfer pob oedran hefyd – gobeithio y gallwn barhau i weithio law yn llaw gyda We Do Tennis i gynnal mwy o sesiynau a chynllunio gyda'n gilydd i ystyried y ffordd orau i fuddsoddi yn yr adnodd er mwyn hybu cyfranogiad a gwarchod y cyrtiau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ychwanegodd Nigel Hunter cyfarwyddwr We Do Tennis – 'Mae We Do Tennis yn gwerthfawrogi cydweithio gyda phobl sy'n angerddol am warchod cyfleoedd i chwarae tennis a gweld y gêm yn ffynnu. Roedd yn wych gweld yr adnodd yn cael ei adfywio gyda'r holl ddiddordeb a brwdfrydedd a ddangoswyd gan y bobl lleol. Rydym wedi ein cyffroi gyda'r cyfle i adeiladu ar hyn a chydweithio i sefydlu rhaglen o hyfforddiant wythnosol ar gyfer y gymuned.

## Goginan

**Cydymdeimlo**
Tristwch yw nodi marwolaeth David Gareth, mab Eric a Margaret Anthony, Tŷ Criafol, gŵr Emma a thad Charlotte yn Ne Cymru. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r teulu ar eu colled.

**Taith Nawdd**
Mae Nigel Davies, Rheolwr Y Druid wrthi yn cerdded llwybr arfordir Cymru yn ddarnau o rhyw 30 milltir y tro yn ystod yr wythnosau nesaf i godi pres i'r Bad Achub er cof am ei frawd ieuengaf Barry Davies, Pwllheli a gollodd ei fywyd drwy ddamwain ar y môr yn Awst 2020. Os oes rhywun fyddai yn hoffi ei noddi neu ymuno gydag ef rhyw ddiwrnod ar un o'i deithiau cysylltwch ag ef yn y Druid.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Dafydd a Menna Fryer, Tŷ Melindwr ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf ar 28 o Awst. Caio Stanley – mab i Iolo ap Dafydd ac Ellie Jones. Pob dymuniad da am y dyfodol.

**Profiad Arbennig**
Llongyfarchiadau i Gwion ap Dafydd, (Hen Goginan) a Celyn Kenny (Capel Bangor) am gwblhau cerdded 2650 milltir ar hyd y 'Pacific Crest Trail'. Dechreuwyd ym Mis Ebrill ar y ffin gyda Mecsico a gorffen ddiwedd Awst wrth gyrraedd Canada…. tipyn o gamp.
Wrth gerdded drwy California aethant drwy dirluniau amrywiol fel anialwch y Mojave acmynyddoedd uchel y Sierra Nevada. Mae llwybr y PCT yn cynnwys teithio drwy barciau cenedlaethol fel Sequoia ac Yosemite. Manteiswyd ar y cyfle i ddringo Mt Whitney (14,505tr) i weld yr haul yn codi.
Ymlaen wedyn drwy Oregon – heibio Crater Lake a sawl ardal folcanig cyn croesi'r 'Bridge of Gods' i dalaith Washington – i fwynhau'r ddrama mwy o ardaloedd mynyddig cyn cyrraedd y ffin.
Heblaw trysori bod allan yn yr anialdir a cherdded rhwng 20 a 30 milltir bob dydd, roedd cwmniaeth cyd-gerddwyr ac haelioni a chroeso y 'trail angels' lleol yn fythgofiadwy. Pum mis na fyddant byth yn ei anghofio.



**Zoe Glynne - sydd belllach yn Gynorthwyydd Dosbarth yn Ysgol Rhydypennau - yn derbyn ei gradd mewn Astudiaeth Plentyndod ym Mhrifysgol Aberystwyth yr haf yma.**

**Pob Lwc**
Dymuniadau gorau i'r rhai sydd yn mynd o'r Ysgol Gynradd eleni i'r Ysgol "Fawr" sef Iestyn, Cysgod y Graig; Gwenno, Hafodau; Tami, Delfryn ac Alice, Tŷ Capel.

## Trefeurig

**Treialon Cŵn Defaid Trefeurig**
Cynhaliwyd y treialon ar Orffennaf 23 ar Fanc-y-darren.
Y beirniad oedd Erinna Rogers, Cwm Elan. Cafwyd diwrnod sych, addas at y cystadlu.
Dyma'r canlyniadau ac enwau y cŵn:
Dull Cenedlaethol Agored
Aled Owen, Llangwm Bud 9
John Price, Cwmerfyn Tess 10
Eirian Morgan, Llanbadarn Nell 11
Teifion Morgan, Kennox Tess 13
Dylan Davies, Bryn-crug Eryrin Joe (Sam) 18
Dewi Jenkins, Tal-y-bont Jock
Dull Cenedlaethol Novis

**1** Dylan Davies, Bryn-crug Treflys Ben 24
**2** J. Davies Jim 27
**3** Dylan Davies, Bryn-crug Treflys Ross 32

**Llwyddiannus**
Llongyfarchiadau i Daniel Davies, Maesmeurig, am ddod yn ail yn y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Bydd y gyfrol yn cael ei chyhoeddi maes o law gan Wasg Carreg Gwalch.

**Dewis i dîm Cymru**
Llongyfarchiadau i John Price, Llwyn, Cwmerfyn sydd wedi bod yn llwyddiannus yn cael ei ddewis i dîm treialon cŵn defaid Cymru eleni.

**Gwella**
Bu Maddy Lewis, Fferm Cwmerfyn yn ysbyty Bron-glais ddiwedd mis Gorffennaf yn derbyn clun newydd. Da gweld ei bod yn gwella ac o gwmpas erbyn hyn.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Gwenda Edwards, Tyngwndwn, fu farw ar 6 Medi yng Nghartref Tregerddan yn 91. Bydd yr angladd dydd Gwener 16 Medi am 1.00 yn Horeb. Hefyd â Dafydd Downes a'r teulu, Glanrafon, ar farwolaeth tad Dafydd ar 12 Medi.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

# Y Borth

**Rhuban Glas Offerynnol**

Llongyfarchiadau i Mared Emyr ar ennill y Rhuban Glas Offerynnol ar y delyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron.

**Ennill 4 Medal yng Ngemau Trawsblaniad Ewrop**

Llongyfarchiadau anferthol i Ieuan Ellis o'r Borth ar ei lwyddiant yn ennill pedair medal yng Ngemau Trawsblaniad a Dialysis Ewrop.

Cynhaliwyd y bencampwriaeth yn Rhydychen ddiwedd mis Awst ac roedd Ieuan yn cystadlu yn y categori ar gyfer pobl dros 50 oed sydd wedi cael trawsblaniad organ neu sy'n cael triniaeth dialysis.

Enillodd fedal arian yn y gystadleuaeth badminton i ddyblau a medalau efydd yn y badminton i unigolion, tenis i unigolion a thenis i ddyblau. Yn 67 oed, Ieuan oedd yr hynaf o blith holl gystadleuwyr y categori hwn.

Cafodd y Gemau Trawsblaniad a Dialysis Ewrop eu trefnu am y tro cyntaf yn Athen, Gwlad Groeg, yn 2000. Ers hynny, mae nhw wedi teithio i naw o wledydd gwahanol ar hyd a lled Ewrop ond dyma'r tro cyntaf iddyn nhw fod ym Mhrydain.

Daeth oddeutu 500 o gystadleuwyr at ei gilydd yn Rhydychen o 25 o wledydd ar draws Ewrop gyda'r cystadlu'n cynnwys tenis, athletau, saethyddiaeth, nofio, pêl-foli, pêl-droed, petanque, dartiau a mwy.

Cafodd Ieuan drawsblaniad ei afu yn Ysbyty'r Frenhines Elizabeth, Birmingham, yn 2015 ac mae wedi cystadlu ymhob pencampwriaeth trawsblaniad ers 2018 ar lefel Brydeinig, Ewropeaidd a Byd. Yn 2019, fe enillodd fedal efydd yn y gystadleuaeth badminton unigol yng Ngemau Trawsblaniad y Byd a gynhaliwyd yn Newcastle upon Tyne. Chafodd y gemau mo'u cynnal yn ystod 2020 a 2021 oherwydd y pandemig.







# Cyffro'r Carnifal

Dychwelodd Carnifal y Borth yn ei holl ogoniant yr haf hwn. Yr uchafbwynt oedd yr orymdaith fawr draddodiadol drwy'r pentref ar ddydd Gwener 5 Awst. Daeth llu o gerbydau lliwgar ac unigolion mewn gwisg ffansi ynghyd ar gyfer y prosesiwn mawreddog, gyda phawb yn ymgynnull unwaith eto ar y caeau chwaraeon ar gyfer y gwobrwyo yn ogystal â reidiau ffair, cestyll awyr, bwyd a cherddoriaeth. Dyma'r tro cyntaf i'r orymdaith gael ei chynnal ers 2019 oherwydd y pandemig,

Fel rhan o'r carnifal hefyd, cynhaliwyd rhaglen eang o weithgareddau yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst gan gynnwys Sioe Gŵn, Helfa Drysor, Gŵyl Sialc, Ocsiwn a Rasys Malwod, Noson Drag, Twrnamaint Bwrdd Tenis, Pwl a Dartiau, Diwrnod Hwyl i'r Teulu, Diwrnod Agored yn y Gerddi Cymunedol, cystadleuaeth cestyll tywod a dau gwis.

Daeth y gweithgareddau i ben ar ddydd Sul 28 Awst gyda Ras Hwyaid ac yn ffodus, roedd digon o ddŵr yn yr afon er gwaetha'r tywydd sych diweddar.

Hoffai Pwyllgor y Carnifal ddiolch o galon i bawb a fu'n helpu ac a roddodd o'u hamser, eu harian a'u hymdrech i sicrhau llwyddiant yr holl ddigwyddiadau. Caiff yr arian sy'n cael ei godi gan y carnifal bob blwyddyn ei rannu rhwng grwpiau ac elusennau lleol, ac mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed gan fudiadau a grwpiau lleoli sydd angen cymorth ariannol ar gyfer diben penodol. Yr e-bost ar gyfer cysylltu yw carolbainbridge@yahoo.co.uk.








**Artist Lleol yn Y Lle Celf**
Cafodd gwaith gan yr artist lleol Martine Ormerod ei ddewis ar gyfer arddangosfa'r Lle Celf ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron.

Roedd Martine yn un o ddim ond 43 o artistiaid a ddewiswyd o blith 303 o ymgeiswyr i fod yn rhan o'r arddangosfa uchel ei bri.

Teitl y gwaith oedd 'Derbyniad' a defnyddiodd gyfuniad o siarcol, gludwaith ac edau wrth ei greu.

"Dyma'r tro cyntaf i mi anfon darn o waith at bwyllgor celf yr Eisteddfod Genedlaethol," meddai Martine. "Roedd y darn a gyflwynais yn un o dri darlun mawr a wnes yn dilyn profedigaeth. Roedd creu'r delweddau yn anodd ond hefyd yn therapiwtig."

Mae Martine yn rhedeg Grŵp Celf Dementia Gyfeillgar ar fore Llun a Grŵp Creadigol ar gyfer oedolion hyn ar brynhawn ddydd Llun yn Hwb Cymunedol y Borth.



**Arddangosfa Gelf**
Mae arddangosfa o waith yr artist Ann Taylor yn cael ei chynnal yn 2 London Place tan 25 Medi. Mae mynediad am ddim ac mae'r siop a'r oriel ar agor rhwng 11yb-4yp, dydd Iau i ddydd Sul.

**Seren y Môr**
Cynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau yng nghanolfan gelfyddydol Seren y Môr / Star of the Sea dros yr haf, yn cynnwys yn cynnwys cerddoriaeth fyw a sioe syrcas. Am 7yh ar nos Sadwrn 24 Medi bydd band Old Baby Mackerel yn perfformio casgliad o ganeuon Americanaidd traddodiadol. Mae pris tocynnau'n amrywio rhwng £6-£15, ac mae manylion pellach ar gael ar dudalen Facebook neu Instagram y ganolfan.

**Amgueddfa Gorsaf Reilffordd y Borth**
Ail-agorodd Amgueddfa'r Orsaf Reilffordd ar gyfer gwyliau'r haf, yn dilyn saib oherwydd y pandemig.

Trwy gydol mis Awst, cafwyd arddangosfa arbennig o set odidog o gyrn carw coch 3,000 o flynyddoedd oed a ganfuwyd ar draeth y Borth yn 2016.



Fel rhan o'r arddangosfa, bu'r Athro Martin Bates o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn arwain dwy daith gerdded ar 26 a 27 Awst gan siarad am arwyddocâd y cyrn ac olion yr hen goedwig ar y traeth.

Cafodd yr amgueddfa ei hagor yn gyntaf yn 2011 yn dilyn cyfnod o waith caled ac ymdrechion criw o wirfoddolwyr lleol ynghyd â chefnogaeth nifer o grwpiau lleol a chenedlaethol.

Adnewyddwyd yr hen Swyddfa Docynnau, yr Ystafell Aros a Swyddfa'r Rheolwr fel rhan o'r gwaith a'u hadfer i gyfnod y 1950au.Mae casgliad yr amgueddfa yn cynnwys cannoedd o eitemau a gasglwyd gan wirfoddolwyr dros y blynyddoedd yn olrhain hanes a phwysigrwydd y rheilffordd yn y Borth a'r ardaloedd cyfagos.

Fel arfer, agor yn ystod y gwyliau ysgol yn unig y mae'r amgueddfa, ac mae manylion pellach i'w gweld ar eu tudalen Facebook neu eu gwefan www.amgueddfagorsafborth.co.uk.

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Lisa Raw-Rees a Dafydd Jones ar enedigaeth Rhys Llywelyn ym mis Mehefin. Brawd bach newydd i Harri a Cadi, ac ŵyr i Jane a Dafydd Raw-Rees.

**Hwb Hwb Cymunedol y Borth**
Bu'n haf hynod o brysur i'r Hwb. Cafodd sesiynau chwarae Haf o Hwyl eu cynnal ar gaeau Ysgol Craig yr Wylfa drwy gydol y gwyliau (gydag un diwrnod yn unig o law!). Diolch i Kiera ac Eleanor am drefnu ac i'r holl deuluoedd a ddaeth ynghyd i fwynhau'r amrywiaeth eang o weithgareddau.

Bu aelodau'r grŵp Cerdded Er Lles yn gwneud yn fawr o'r tywydd braf hefyd, gyda chyfres o deithiau cerdded byr bob bore Gwener yn cychwyn o Neuadd Gymunedol y Borth. Os hoffech ymuno, cysylltwch gyda Dawn Forster, Ceredigion Actif, ar 07866985753 neu Dawn.Forster@ceredigion.gov.uk

Mae caffi'r Hwb ar agor bob dydd Gwener rhwng 11:30yb a 1.30yp, yn cynnig bwyd cartref a lle i gymdeithasu. Mae croeso i bawb.



Mae gan yr Hwb nifer o gyfleoedd gwirfoddoli ar draws ystod o'u gweithgareddau. Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch gyda lisa@borthfamilycentre.co.uk.

**Dathlu Canlyniadau**
Llongyfarchiadau mawr i holl bobl ifanc y Borth a gafodd ganlyniadau TGAU, Lefel A a graddau prifysgol dros yr haf. Yn eu plith roedd Twm Joseff (PhD mewn Geneteg Firysau, Prifysgol Caergrawnt) ac Elin Haf (MA mewn Llenyddiaeth Saesneg, Prifysgol Caerdydd), y ddau yn blant i Haf ap Robert a Joseph Mitchell, Ffordd y Fulfran; a Hanna Prytherch (BASc yn y Celfyddydau a'r Gwyddorau, Coleg Prifysgol Llundain), hefyd o Ffordd y Fulfran. Ac wedi cwblhau cwrs celf UAL yn Ngholeg Ceredigion, mae Archie Downing Piquemal ar ei ffordd i Brifysgol Caerefrog St John i astudio animeiddio ar ôl derbyn cynnig di-amod ar sail ei ddatganiad personol, ei bortffolio a'i gyfweliad.

Llongyfarchiadau hefyd i Jac James, Brynffynnon, ar ei lwyddiant yn yr arholiadau TGAU a phob hwyl iddo yng Ngholeg Ceredigion yn dilyn cwrs Cyfryngau Creadigol.

**Croeso**
Croeso i'r Parchg Nick Bee sydd wedi symud i Ficerdy y Borth – dechreuodd ar Fedi 1af fod a gofal bugeiliol am eglwysi y Borth, Llangorwen (Clarach) ac Eglwys Llanfihangel Genau'r glyn.

# Clwb Golff y Borth ac Ynys-las

Cafwyd haf prysur iawn yn y clwb gyda nifer o gystadlaethau a digwyddiadau yn ystod y gwyliau.

**Diwrnod y Llywydd**
Gwenodd yr haul ar gyfer diwrnod ein Llywydd Nans Morgan gyda 90 o gystadleuwyr ar y cwrs. Casglwyd £1,550 ar gyfer Uned Cemotherapi Bron-glais diolch i haelioni pawb ar y dydd.

Enillwyr y cystadlaethau yn Adran y Dynion oedd Paul Worral ar 44 pwynt; gyda Nick Downing ar 41 pwynt yn fuddugol yn yr Adran 0 – 16, a David Worral ar 41 pwynt yn yr Adran 17+.

Yn Adran y Menywod, Rhian Raw Rees ddaeth i'r brig ar 41 pwynt, Jean Harrison ar 39 pwynt yn Adran 1, ac Andrea Evans ar 41 pwynt yn Adran 2.

Diolch yn fawr i Nans am drefnu diwrnod mor arbennig.

Trefnwyr Angladdau
C T Evans
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
01970 820013
gwyn@ct-evans.co.uk
Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

**Cystadleuaeth RNLI**
Cynhaliwyd cystadleuaeth flynyddol yr RNLI gyda'r cwrs yn llawn cystadleuwyr o'r pentref ac o glybiau pell ac agos. Enillydd y gystadleuaeth oedd Tom Thomas gyda 40 o bwyntiau.

**Adran y Dynion**
Adran 1: Steve Salt ar 39 pwynt; Michael Bradley ar 37 pwynt.
Adran 2: Malcom Clark ar 39 pwynt; Lindsay Fletcher ar 39 pwynt.

**Adran y Menywod**
Adran 1: Jane Raw-Rees ar 36 pwynt; Julia Montfield – 34 pwynt

Adran 2: Hannah Gill ar 38 pwynt; Helen Lewis – 38 pwynt

Wrth gyflwyno'r gwobrau, diolchodd Jack Evershed o RNLI Y Borth i bawb am drefnu'r diwrnod ac am y cyfraniadau o dros £800 a gasglwyd tuag at yr elusen.

**Diwrnod Capten y Menywod**
Ar ddiwrnod bendigedig o haf ar gyfer ein Capten Mair Jenkins, daeth 43 o fenywod ynghyd ar gyfer cystadleuaeth Stableford. Enillydd y dydd oedd Juliet Parry Jones gyda sgôr arbennig o 43 pwynt. Karen Evans ar 39 pwynt oedd yn fuddugol yn Adran 1, a Jennifer Roberts ar 41 pwynt yn Adran 2.

Roedd Mair wedi trefnu diwrnod arbennig gyda nifer o gystadlaethau eraill yn cynnwys y bêl agosaf at y pin a enillwyd gan Carol Holmes a'r bêl agosaf at y llinell gyda Margaret Roberts yn dod i'r brig.

Yn ogystal gwahoddwyd grŵp y newydd-ddyfodiaid i golff i gymryd rhan, gyda Chris Powdrill yn ennill y gystadleuaeth pytio. Braf oedd gweld criw mor frwdfrydig yn dod i ymuno â'r clwb.

Diolchwyd i Mair am ei holl waith a'i hymroddiad nid yn unig o ran trefnu'r diwrnod ond hefyd fel Capten ar hyd y flwyddyn. Casglwyd £441 ar y dydd ar gyfer elusen ddewisedig y Capten sef Y Gymdeithas Gofal.

**Diwrnod Capten y Dynion**
Diwrnod godidog o haf a gafwyd unwaith eto ar gyfer Capten Bob Gill gyda 22 o dimoedd o dri yn cystadlu mewn 'Texas Scramble' ar y dydd. Llwyddwyd i godi cyfanswm o £1,000 ar gyfer elusen ddewisedig y Capten, sef Cymorth Canser Macmillan.

1af – Dafydd Jones, Robert Clark a Simon Bentley (57 pwynt)
2ail – Tom Thomas, Les Jones a Derek Saunders (59.3 pwynt)
3ydd – Melvyn Evans, Kevin Lewis a Martin Harries (60.4 pwynt)









**Enillwyr Cwpanau Adran y Menywod**
Llongyfarchiadau mawr hefyd i holl enillwyr tlysau a chwpanau eraill Adran y Menywod yn ystod wythnosau'r haf.

Cwpan Clarke – Rhian Raw Rees
Hambwrdd Arian HWGriffiths – Mair Jenkins
Tarian Beryl Roberts – Jean Harrison
Tlws Evelyn Jenkins – Barbara Flanagan
Broets Coffa Dr Aileen Smith – Catrin Pugh Jones
Hambwrdd Arian Roberts – Gill Jones

**Pencampwriaeth y Menywod**
Pencampwraig Gross Angharad Basnett
Pencampwraig Net – Anna Hubbard

## Colofn **Elin Jones AS**

Wedi haf prysur gyda thywydd braf, mae'r ysgolion wedi ailddechrau a bywyd yn dod 'nôl i batrwm lawer mwy arferol. Ond mae heriau yn ein hwynebu, wrth i brisiau nwyddau gynyddu, ac wrth i Brif Weinidog newydd yn y Deyrnas Gyfunol fynd ati yn ei swydd newydd yn rhif 10, mae Plaid Cymru yn bwrw ymlaen i gyda'r nôd i ddarparu prydau ysgol am ddim i bawb. Y tymor yma mae'r plant ieuengaf wedi dechrau derbyn prydau ysgol am ddim, a bydd hyn yn cyfrannu at leddfu'r argyfwng costau byw i deuluoedd ledled Cymru.

Rydym yn ffodus iawn bod Cyngor Sir Ceredigion wedi dechrau rhoi cinio ysgol am ddim i flynyddoedd 1 a 2, yn ogystal â'r Cyfnod Sylfaen ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd yma. Bwriad Llywodraeth Cymru oedd gallu cynnig pryd am ddim i bawb yn y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yn y lle cyntaf. Mae hyn yn golygu bod Cyngor Sir Ceredigion wedi mynd gam ymhellach gan gynnig mwy i'n plant ysgol na'r rhan fwyaf o siroedd eraill Cymru, a dwi'n siŵr bydd hyn o fudd mawr i deuluoedd y sir gyda'u costau byw.

Mae Plaid Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i ddychwelyd y cap pris ar ynni i'r lefelau fel yr oedd cyn Ebrill ar gyfer tariff amrywiol safonol a mesuryddion rhagdalu. Mae busnesau bach fel siopau lleol, ffermydd a chyflenwyr bwyd yn wynebu biliau enfawr ac ni fyddant yn cael eu diogelu gan y cap pris. Mae Plaid Cymru hefyd felly yn cefnogi galwad y Ffederasiwn Busnesau Bach i ymestyn y cap prisiau i fusnesau bach ac elusennau.

Mae nifer o'n cymunedau eisoes yn byw mewn tlodi, ac ond yn goroesi diolch i haelioni banciau bwyd a sefydliadau cymunedol lleol. Diolch yn fawr i'r rheini ohonoch sy'n rhoi o'ch amser i wirfoddoli a gweithio yn y banciau bwyd. Ceir gwybodaeth ar wefan y Cyngor Sir am leoliad eich banc bwyd lleol, gan gynnwys sut mae cyfrannu.

Os fyddwch chi'n ei chael yn anodd i dalu eich biliau, cofiwch fod peth cefnogaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac mae dipyn o wybodaeth i'w gael ar wefannau'r Llywodraeth, a'r Cyngor Sir. Cofiwch hefyd fod cyngor am ddelio gyda dyled a'r cymorth sydd ar gael drwy wasanaeth Cyngor ar Bopeth drwy ffonio 01239 622020.

Rwy hefyd yn parhau i dderbyn ymholiadau am wasanaethau bws cyhoeddus y sir hefyd. Mae'n gyfnod heriol iawn i'r diwydiant bysus wrth iddynt geisio dod i'r afael a phrinder o yrwyr, costau gweithredu gan gynnwys costau tanwydd, a gostyngiad yn niferoedd teithwyr mewn nifer o ardaloedd. Mae newidiadau yn parhau i ddigwydd dros y sir, a dwinnau'n parhau i fonitro'r sefyllfa ac i roi pwysau ar yr awdurdodau i sicrhau bod Ceredigion yn gallu cael y gwasanaethau rydym eu hangen, gynted bydd hyn yn bosib.

Mae'n bleser gen i gynrychioli Ceredigion yn y Senedd, a chofiwch gysylltu â mi os fyddwch angen cymorth, rwyf yma i'ch gwasanaethu a chefnogi.

# Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Daeth diwedd y flwyddyn i ben ar nodyn uchel wrth i nifer o aelodau'r clwb gymryd rhan yng nghystadlaethau'r Rali a gynhaliwyd eleni yn Llanwennog ar ddiwedd Mai. Llongyfarchiadau a diolch i bawb am gystadlu, cawsom lawer o hwyl yn paratoi at y cystadlu ac ar ddiwrnod y Rali yn ogystal ag yn Nawns y Rali. Enillodd Sara Jenkins gwpan am y marciau uchaf am farnu stoc a Bedwyr Siencyn gwpan am drin gwlan.

Ar Orffennaf y 26ain, cawsom ein Cyfarfod Blynyddol a Barbaciw y Clwb ar fferm Llety Ifan Hen. Cyflwynwyd siec o £700 i Ambiwlans Awyr Cymru a £700 i Fudiad Ffermwyr Ifanc Ceredigion.

Ar ddydd Sadwrn Awst 27ain, bu nifer o aelodau'r Clwb yn cystadlu a stiwardio yn Sioe Tal-y-bont. Yna, wedi llawer o baratoi, cynhaliwyd cystadleuaeth Cneifio Cyflym yn Nhan 'Rallt Tal-y-bont. Yr oedd yn noson lwyddiannus iawn a diolch i holl aelodau'r clwb ddaru stiwardio, cystadlu a helpu. Bydd elw y noson yn mynd i gefnogi ymdrechion Cor Machynlleth 'Le Tour de Cor' at Uned Cemotherapi Ysbyty Bron-glais Aberystwyth. Dyma rai o'r enillwyr:

Adran Iau: 1af Elgan Roberts, 2il Goronwy Williams, 3ydd Bedwyr Siencyn.

Adran Canol: 1af Ioan Williams, 2il Dafydd Roberts, 3ydd Deio Williams

Adran Hyn : 1af Gwin Evans, Tan Llan, 2il Huw Jones, 3ydd Shaun Fairclough

Feterans: Gerallt Evans, 2il Dafydd Jenkins, 3ydd Phil George

Agored: Gethin Lewis, 2il Elgan Jones 3ydd Gwion Evans

Tal-y-bont v Pennal: 1af Pennal 2il Tal-y-bont.

Bydd y Clwb yn ail ddechrau fis yma yn neuadd Tal-y-bont ar nos Fawrth yn wythnosol. Bydd rhagor o wybodaeth a manylion am y gweithgareddau i'w gweld yn fuan ar wefan y Clwb ar y cyfryngau cymdeithasol. 'Rydym yn edrych mlaen i groesawu aelodau hen a newydd i'r clwb. Hoffem fel clwb ddiolch i bawb yn yr ardal am eich cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Macsen**

## Clarach

**Arholiadau**

Llongyfarchiadau i Alaw Lewis ar ei chanlyniadau TGAU. Hwyl iddi yn chweched ysgol Penweddig. Llongyfarchiadau i Lili Lewis ar ei chanlyniadau lefel A; pob hwyl ar ei chwrs addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Carol Jenkins a Dylan ar farwolaeth mam Carol – Dora M. Jenkins, gynt o Aberystwyth ar 10 o Orffennaf.

ac â Ann Williams, Tegfan, ar farwolaeth ei chwaer Gwenda Edwards, Tyngwndwn, Cwmerfyn.

**Dau feirniad**

Braf oedd gweld dau gerddor o Langorwen ar y panel beirniaid offerynnol yn yr eisteddfod yn Nhregaron. Edward Jones oedd y beirniad offerynnau pres a Ceri Wynne Jones oedd beirniad y delyn.




**Griff Lewis yn cynrychioli Cymru yn nhaith Ieuenctid Cymru dros benwythnos cyntaf Medi**

# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**
*Medi*
18 2.30 Gwilym Tudur
25

*Hydref*
2 2.30 Peter Thomas
9
16 Cyfarfod pregethu Bethel a Seion yn Seion, Stryd y Poptry am 10.00 Y Parchg Dyfrig Rees
23 2.30 Judith Morris
30

**Clwb Sul 10.30**
*Medi*
18 Horeb
25 Eglwys St Ioan

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Gillian a Robert Dobson, Cae Mawr, ar ddod yn fam-gu a thaid eto – ganwyd mab – Deio Iwan – ar 21 Mehefin i Rhian ac Iwan Gareth yng Nghaernarfon; brawd bach i Gruffudd Iwan.

Hefyd i Non a Colin Evans, Refail Fach, ar ddod yn fam-gu a thad-cu eto. Ganwyd mab – Tomi, brawd bach i Nel, Jac a Magi yng Nghaernarfon ar 5 Medi.

**Gwobr Meddygaeth**
Llongyfarchiadau i Dwynwen Spink (merch Lucy Huws a'r diweddar Miles ac wyres Daniel a Helga) ar ennill Gwobr Meddygaeth William Salesbury y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2022.

**Only Boys Aloud**
Llongyfarchiadau i Steffan Rhys Jones ac Osian Mills oedd yn canu gyda chôr Only Boys Aloud yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd ddechrau Gorffennaf.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Dilys Binks, Maes Seilo, fu farw ar 30 Awst ac â Norma Collins a'r teulu, Ger-y-llan ar farwolaeth Glyn Collins ar 7 Medi.

Cynhelir angladd Mrs Binks dydd Mercher 21 Medi am 13.00 yn Eglwys St. Ioan.

**Pen blwyddi arbennig**
Dymuniadau gorau i John Hughes, Pen-cwm sydd wedi dathlu yr 80 a Ken Evans, Coedgruffydd y 90 yn ystod mis Awst.

**Symud dramor**
Ffarweliwyd â theulu Clifton-Brown ym mis Gorffennaf wrthynt symud i dref Gießen, yn yr Almaen. Dymunwn yn dda iddynt.

**Croeso**
Croeso cynnes i Awel Jones sydd wedi symud o Lanbadarn i Glan Ceulan.

**Marwolaeth**
Cydymdeimlwn â Kathleen Williams a'r teulu, Cae Mawr, ar farwolaeth Dr P. Clive Williams, ar 19 Gorffennaf yn dilyn salwch byr.

Hefyd â Debbie Jenkins a'r teulu ar farwolaeth mam Debbie – Tessa Bromley ar 12 Gorffennaf ym Mhlas Cwmcynfelyn.




**Llan llanast**
Ar fore crasboeth o haf cafwyd Llan Llanast yn Neuadd Eglwys St Ioan, fore Sadwrn,13 Awst. Daeth rhyw 12 o blant ifanc atom a'r testun y tro hyn oedd Arch Noa a'r llifogydd a gweddi. I ddechrau cafwyd hanes Arch Noa yn ddwyieithog a sut oedd Duw wedi dweud wrth Noa am adeiladu cwch enfawr i'w deulu a'r holl anifeiliaid gan fod llifogydd ar ddod. Gwnaethpwyd crefftau gwahanol sef: Dwy enfys fawr (i'w dangos yng Nghapel Horeb ac Eglwys St Ioan), Arch Noa llai o faint ac enfys arni, anifeiliaid i'w dodi yn yr arch, cacen a addurnwyd gan bob plentyn gyda enfys a chymylau arni, colomen a deilen. Yn ystod y bore daeth y Canon Andrew Loat atom ac eglurodd y cysylltiad rhwng Arch Noa a'r bedyddfaen sydd i'w gweld mewn eglwysi heddiw. I orffen cafwyd cŵn poeth a'r cacennau a addurnwyd gan y plant yn gynharach a diod ysgafn.

**Arholiadau**
Llongyfarchiadau a phob lwc i Gronw Downes a fydd yn mynd i astudio Bioleg yn ngholeg Hertford, Prifysgol Rhydychen yn dilyn canlyniadau Safon Uwch arbennig!

i Sion James ar ganlyniadau ei lefel A a dymuniadau gorau ar ei gwrs hanes ym Mirmingham.

i Elisa Martin ar ei chanlyniadau lefel A a dymuniadau gorau ar ei chwrs cynhyrchu ffilm ym Mhrifysgol Swydd Stafford.



## Cymdeithas y Penrhyn

Dydd Sadwrn y 18fed o Fehefin oedd dyddiad taith diwedd blwyddyn Cymdeithas y Penrhyn. Yr ardal a ddewiswyd eleni oedd gogledd Maldwyn sy'n eithriadol o gyfoethog o ran hanes a diwylliant. Y man aros cyntaf am baned oedd y Cann Office yn Llangadfan a dyna lle yr ymunodd ein tywysydd, Dafydd Morgan Lewis, â ni.

Ymlaen â ni wedyn i Lanrhaeadr-ym-Mochnant i ymweld â'r eglwys. Yn ystod ei gyfnod yn ficer Llanrhaeadr y paratôdd William Morgan y cyfieithiad cyntaf o'r Beibl i'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn 1588. Fel y digwyddodd, roedd cerflun o William Morgan a arferai fod y tu allan newydd gael ei symud i mewn i'r eglwys gan y cerflunydd, Barry Davies, a'i gynorthwywyr ychydig cyn i ni gyrraedd.

Taith fer oedd hi wedyn dros



Lowri a gafodd 11A*

Llongyfarchiadau hefyd i Lowri Jones a Carys James ar eu canlyniadau TGAU.

i Cerys Hurford, ar ei chanlyniadau TGAU a dymuniadau gorau iddi ar ei chwrs Iechyd a Chymdeithasol yng Ngholeg Ceredigion ym Medi.

i Lydia Powell ar ei chanlyniadau lefel A – dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol ac i Iestyn Powell ar ei ganlyniadau TGAU – hwyl yn y chweched.

**Clwb Ieuenctid Penrhyn-coch**

O'r diwedd mae 'na glwb ieuenctid wedi ei ffurfio ym Mhenrhyn-coch!

Mi gysylltodd Mari Gibson (14) gyda mi yn fy rôl fel cynghorydd i ddweud nad oedd dim llawer o ddim i ddiddanu hi a'i ffrindiau yn y pentref. O fewn awr roedd y neges ar led am sesiwn blasu Clwb Ieuenctid ym Mhenrhyn. Daeth



Llongyfarchiadau i Eleri Jones raddiodd fel athrawes



Llongyfarchiadau i Delyth James ar dderbyn gradd M Sc

13 i'r sesiwn cyntaf ac roedd hi'n amlwg bod galw am y math yma o weithgaredd i bobol ifanc.

Felly, bob yn ail nos Fercher rhwng 7yh a 9yh yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch mae croeso i bobol ifanc rhwng 11-15 oed ddod i gymdeithasu, chwarae pŵl, cael gêm o rownderi neu bêl-droed a chefnogi digwyddiadau'r pentref.

Yn ein sesiwn cyntaf mi ffurfiodd y criw gyfansoddiad syml i'r Clwb a chytuno ar ambell reol ond roeddent yn awyddus iawn i mi nodi bod croeso i unrhyw un rhwng 11-15 oed, does dim rhaid iddynt fod yn



byw ym Mhenrhyn. Mae'n debyg bod basged o sglodion a sôs coch i bawb ar y diwedd hefyd yn rhan annatod o'r cyfansoddiad!

Byddaf i fel sylfaenydd y Clwb yn mynd ati i chwilio am gymorth ariannol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cynnal y clwb a'i gadw yn rhad ac am ddim. Mae'r Clwb Pêl-droed wedi bod yn hynod o gymwynasgar yn gadael i ni ddefnyddio'r adeilad a darparu sglodion tra rydw i'n cwblhau'r gwaith papur a ffeindio cyllid ac mae'n niolch i'n enfawr i Jane Richards (Ger-y-llan) fel cyd-sylfaenydd y clwb sydd wedi bod yn gymorth a hwb enfawr i sicrhau llwyddiant. Rydym ni'n chwilio am wirfoddolwyr i helpu cynnal ac arwain y clwb ambell noson er mwyn sicrhau bod y Clwb ddim yn mynd yn drech ar unigolion.

Am fwy o wybodaeth e-bostiwch fi ar caryl.roberts@ceredigion.llyw.cymru neu yrru neges whatsapp ar 07732771116.

**Y Cynghorydd Caryl Roberts**

**Diolch**

Dymuna Mairwen Jones ddiolch i bawb a ddanfonodd gyfarchion, cardiau ac anrhegion iddi ar achlysur ei phen blwydd arbennig ym mis Mehefin.



**Brownies**

Llongyfarchiadau mawr i Seren Lockyer, aelod o Brownies Penrhyn-coch, am dderbyn ei Bathodyn a Thystysgrif Aur gan Swyddog Pwyllgor Gwaith Geidio Ceredigion. Dyma'r bathodyn uchaf gall y Brownies weithio tuag at.




y ffin i Groesoswallt am ginio. Llanfyllin oedd y gyrchfan nesaf gan alw yn Hen Wyrcws y Dolydd y tu allan i'r dref. Mae yno ganolfan ymwelwyr werth chweil a chyflwyniad ffilm sy'n rhoi syniad o sut fyddai bywyd wedi bod yn y Wyrcws. Daeth y teithio i ben gyda phryd o fwyd gyda'r nos yn nhafarn y Brigands, Mallwyd.

Bydd cyfarfod cyntaf yr hydref ar 21ain o Fedi yn festri Horeb am 7.30 pan fydd yr awdures Caryl Lewis yn ein hannerch. Croeso cynnes i bawb.

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

# Dwbwl Dwbwl i Davies



Yn dilyn llwyddiant Ieuan Andrew Davies (Maes yr Efail, Penrhyn-coch) yn 2021 wrth ennill Pencampwriaeth Ras Circuit Beicio Cymru yn 'Marsh Tracks' y Rhyl a Phencampwriaeth Ras Rhewl Beicio Cymru yng Nghastellnewydd Emlyn aeth Andrew wrthi i amddiffyn ac i drio ail ennill y ddau bencampwriaeth eleni eto. Yn dilyn ras gyffous Pencampwriaeth Ras Circuit Beicio Cymru fel rhan o Ŵyl Seiclo Aber yn Aberystwyth, llwyddodd i ail ennill y Crys eleni eto am yr ail flwyddyn yn olynol. Yn dilyn ras gyffrous a chaled yng Nghastellnewydd Emlyn wythnos yn hwyrach llwyddodd Andrew i ail ennil y ras yna hefyd; felly yn llwyddo ac yn dathlu'r 'Dwbwl Dwbwl'. Mae Andrew am dalu teyrnged er cof am Daniel Davies (ffrind ac un o gymeriadau mwyaf seiclo yn Aber) wrth ennill y crys/pencampwriaethau eleni. Diolch i bawb a fu'n fy nghefnogi fi a'r holl feicwyr a fu'n rasio yn Aberystwyth ac yng Nghastellnewydd Emlyn eleni. Os am wyboadaeth bellach ewch i dudalen facebook Ieuan Andrew Davies. Lluniau: SportspicturesCymru

**Pel-droed Penrhyn-coch**

*Tim 1af*

23/07 Cwpan Nathaniel MG
Penrhyn-coch 0 Tref Bwcle 2
30/07 Cynghrair – Penrhyn-coch 1 Gresffordd Athletig 0
13/08 Cyngrhair – Penrhyn-coch 0 Porthmadog 3
20/08 Cyngrhair Yr Wyddgrug Alexandra 3 Penrhyn-coch 1
26/08 Cynghrhair Penrhyn-coch 1 Y Waun AAA 1
29/08 Cyngrhair Tref Prestatyn 5 Penrhyn-coch 0
03/09 Cwpan FAW Cynghrair Cymru Gogledd 03/09 Yr Wyddgrug Alexandra 4 Penrhyn-coch 0

*Eilyddion*

13/08 Llanidloes 3 Penrhyn-coch 2
23/08 Llandrindod 2 Penrhyn-coch 1
30/08 Penrhyn-coch 6 Rhaeadr 1




## Adolygiad

Dylan Iorwerth *Cardis: portreadau – o Badarn Sant i Dave Datblygu* Y Lolfa 148t. £7.99

Cyflwyniad i 19 o bobl – 13 gwryw a 6 menyw - yn grefyddwyr, beirdd, awduron rhyddiaith, gwyddonwyr, gwleidyddion, addysgwyr a phrotestwyr, - y mae eu henwau'n cael eu cysylltu'n "reddfol" â Cheredigion, sydd yn y gyfrol fach hylaw yma. Mae'r awdur yn pwysleisio nad cystadleuaeth am yr ugain-namyn-un uchaf yw hi, ond darlun o unigolion fu yn arloeswyr yn eu gwahanol feysydd ar wahanol gyfnodau yn ystod y pymtheg can mlynedd ddiwethaf, gyda Phadarn Sant (6ed ganrif) a Dave Datblygu (bu farw yn 2021) yn ddau begwn gwrthgyferbyniol.

Mae pob un o'r ysgrifau cymharol fyr – rhwng chwech ac wyth tudalen yr un – yn cyflwyno hanes y gwrthrych, yn ei g/osod yng nghyd-destun amgylchiadau cymdeithasol ei gyfnod/chyfnod, ac yn agor ein llygaid i'r gymysgedd o chwedloniaeth a ffaith sy'n tyfu yn anochel yn nhreigl y blynyddoedd. Felly, er mai ychydig o ffeithiau caled sydd yn yr ysgrif am Badarn Sant, mae yma gyflwyniad difyr a theg i'r etifeddiaeth gyfoethog a adawodd i ni ac sy'n dal gyda ni, hyd yn hyn.

Saith can mlynedd ar ôl Padarn ganwyd Dafydd ap Gwilym a fu'n destun cyfrolau o ymchwil academaidd. Unwaith eto prin yw'r ffeithiau diymwâd, ond mae ei lais – rhamant ei eiriau a'i fodolaeth - gyda ni. Ymlaen â ni rhyw ddau can mlynedd at Twm Siôn Cati – a oedd yn fwy enwog mewn drama ar lwyfan yn Llundain nag yng Nghymru ddechrau'r 19eg ganrif mae'n debyg, ond sydd bellach wedi ennill ei le yn ein treftadaeth. Bu farw yn 1609.

Ganrif wedyn ac mae'r enwau'n amlhau gan ddechrau gyda Daniel Rowland, a anwyd yn Llangeitho, ac a ddaeth yn bregethwr grymus, chwyldroadol, a ddenai 10,000 o bobl i'r pentref i'w glywed - 2% o holl boblogaeth Cymru. Yn yr un ganrif roedd Evan Evans, Ieuan Fardd, yr ysgolhaig a anwyd yn Lledrod, a'r amaethydd arloesol Anne Evans, Dolau Mawr (Highmead) ger Llanybydder wrth eu gwaith, a dyma hefyd gyfnod y gweinidog Arminaidd Dafydd Dafis, Castellhywel, Talgarreg, a fu'n athro ar "genhedlaeth o offeiriaid a gweinidogion eang eu meddyliau a rhyddfrydol eu barn".

Henry Richard o Dregaron, y gweinidog Annibynwyr yn Llundain, a ddaeth yn AS Merthyr Tudful ac Aberdâr, ac a fu'n llafurio dros heddwch yn ystod Rhyfel y Crimea, yw'r cyntaf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda Sarah Jane Rees (Cranogwen) y ddirwestwraig a'r addysgwraig yn ei ddilyn, ac yna'r heddychwraig Annie Ellis a arweiniodd yr ymgyrch i fynd â Deiseb Heddwch Menywod Cymru – ag arni enwau (neu farciau) 390,296 o fenywod Cymru - i Washington yn 1924.

Ar droad yr ugeinfed ganrif hefyd rhoir sylw i ddau awdur rhyddiaith gwahanol iawn i'w gilydd o ran iaith a chynnwys a pharch eu cyd-Gymry atyn nhw, a'r ddau yn hanu o Rydlewis, sef Moelona a Charadoc Evans. Yna daw'r digrifwr Idwal Jones a'r addysgwraig Cassie Davies, a'r bardd Prosser Rhys, a'r gwyddonydd arwyddocaol Evan James Williams, a'r beirdd Eluned Phillips a Dic Jones sy'n ein harwain i mewn i'r unfed ganrif ar hugain. Yn glo herfeiddiol i'r crynhoad cynhwysfawr ac amrywiol mae'r rebel o ganwr roddodd lais i "deimladau'r genhedlaeth o bobl ifainc a godwyd yn nyddiau Thatcher, gydag alcohol a chyffuriau yn arf i leddfu'r anobaith a'r diflastod," sef David R Edwards (Dave Datblygu).

A dyna ni, taith drwy amser sy'n cyffwrdd â gwahanol gorneli a chilfachau yr hen sir, sy'n amlwg yn ffrwyth darllen eang ar ran yr awdur, ac sy'n gwneud llawer mwy na chyflwyno 19 o unigolion arwyddocaol, er mor werthfawr yw hynny. Os cyfyd awydd i wybod rhagor mae rhestr o **Ffynonellau** wedi ei chynnwys i ddangos y ffordd.

Gallai aml i gymdeithas "ddiwylliannol" neu glwb darllen, (neu Bapur Bro efallai?!) fyrhau'r gaeaf eleni trwy drefnu cwis wedi ei seilio ar gynnwys y gyfrol hon, a thrwy hynny gynyddu a chyfoethogi ymwybyddiaeh pobl heddiw'r Sir o gyfoeth ei doe.

**Llinos Dafis**

**R.J Edwards a'i Fab**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán

01970 820149

*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*

**Gwefan Cymuned Trefeurig**

**trefeurig.cymru**

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website   Trefeurig8
whhowells@gmail.com




GWE Cambrian WEB

**Gwefannau Gwych o Gymru**

Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*

**Cysylltwch Heddiw**
info@cambrianweb.com
01970 623 906

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# LLE MAE NHW NAWR?

Dau frawd o Flaendyffryn, Goginan yn wreiddiol sy'n dweud eu hanes y mis hwn. Mae'r ddau bellach wedi ymgartrefu yn Ne Cymru.

**Rhys Llewelyn Bebb**

Mae wedi bod yn dipyn o siwrnai o Goginan i Stiwdio Blaidd Cymru yng Nghaerdydd. Ers fy nyddiau ysgol, roedd gweithio yn y diwydiant teledu a ffilm yn rhywbeth y byddwn yn breuddwydio amdano ond yn fyd i ffwrdd. Bellach, rwyf wedi cyrraedd fy nod o weithio mewn stiwdio a gweld sêr y sgrin fel James Macavoy, Lin Manueal Miranda ( a sawl un arall na fedraf siarad amdanynt ar hyn o bryd). Yn ychwanegol rwyf nawr mewn sefyllfa lle medraf helpu eraill â'r un breuddwydion i drio cymryd y cam cyntaf i mewn i'r stiwdio ar draws Cymru.

Un o'r prif negeseuon rydwyf wedi ei rhannu ar fy nheithiau ar draws Cymru yw'r ffaith bod llwybr eich gyrfa yn y sector yn gallu bod yn ffordd droellog. Anaml iawn mae pobl yn mynd yn syth i'w dewis rôl, a doedd yn bendant ddim fel yna i fi.



Er fy mod wedi gwirfoddoli yn Radio Bron-glais a Cheredigion, ar ôl y Brifysgol, fel athro y dechreuais fy ngyrfa ar ôl graddio mewn Seicoleg. Er bod hyn yn gam mawr i ffwrdd o'r cynllun , profodd y sgiliau a ddatblygais o flaen y meicroffon yn ddefnyddiol iawn yn y dosbarth. Dros y blynyddoedd , fe wnes gyfuno'r byd addysg a'r diwydiannau creadigol, yn swyddog addysg a chyfryngau gyda Cadwch Cymru'n Daclus a wedyn gyda'r elusen Into Film.

Ers 2020, rwyf bellach yn gweithio i Screen Alliance Wales, lle rwyf yn hyfforddi pobl sy'n edrych am swyddi yn y diwydiant gan obeithio ysbrydoli pobl ifanc sydd ddim wedi meddwl bod yna botensial i fod yn aelod o griw ffilmio. Ar y cyd â chyfarwyddwyr, pobl camera a phobl sgript rydwyf yn hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i drydanwyr, seiri, cyfrifwyr a llawer o broffesiynau eraill nad yw pobl fel arfer yn cysylltu gyda gweithio ym myd Teledu a Ffilm.

Rwyf yn byw yng Nghasnewydd gyda fy ngwraig Karen a'r plant Ceirios 17 a Dewi 15.

**Ioan Bebb**

Rhaid cyfaddef, nad oedd ymadael â Goginan yn benderfyniad anodd i fi, pan oeddwn yn 17 mlwydd oed. Nid oedd dyfodol ar y fferm deuluol yn apelio ataf ac roedd y cyfle i ymuno â chlwb pêl-droed Wolverhampton Wanderers, fel chwaraewr proffesiynol, yn ddrws agored i fywyd newydd, cyffrous.

Er nad oedd y flwyddyn yn Molineux yn llwyddiannus iawn, roedd yn gam cyntaf ar daith arbennig ym myd chwaraeon sydd wedi dod â nifer o brofiadau gwerthfawr. Pleserus iawn oedd fy mhedair mlynedd yng Ngholeg Cyncoed- Prifysgol Met Caerdydd yn awr – ac yn ystod y cyfnod hwn llwyddais i chwarae rygbi Undeb a Chynghrair i Gymru. Roedd yr addysg yn sail ar gyfer gyrfa fel chwaraewr rygbi llwyddiannus, yn benodol gyda clwb undeb Cross Keys a chynghrair De Cymru, a hefyd fel athro addysg gorfforol.

Llwyddais gael swydd yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera, yng nghwm Tawe, ac yno rwyf wedi aros am y 27 mlynedd diwethaf! Mae addysgu sêr y dyfodol yn rhoi pleser mawr i fi a mae gweld cyn- ddisgyblion fel Ben Davies, Owen Williams a Joe Brier yn rhagori ar y llwyfan rhyngwladol yn dod a balchder mawr. Yn ogystal, mae tywys timau'r ysgol i lwyddiant Cenedlaethol yn atgyfnerthu fy mrwdfrydedd i barhau ym myd addysg.

Er fy mod wedi sefydlu gwreiddiau yn Ne Cymru rwyf yn dyheu am ddychwelyd i brydferthwch y canolbarth. Erbyn hyn, rwyf yn mwynhau cerdded mynyddoedd ac yn hoff o grwydro o gwmpas Bwlch Nant yr Arian neu Bumlumon pan gaf gyfle i ddychwelyd i gwm Melindwr. Pwy a wŷr, efallai byddaf yn dychwelyd yn barhaol rhyw bryd?

# Bow Street

**Suliau Capel y Garn**
*10.00*
*Medi*
**18** Bugail
**25** Bugail

*Hydref*
**2** Bugail
**9** Noddfa – Y Parchg Richard Lewis
**16** Bugail
**23** Bugail (Gofalaeth)
**30** Beti Griffiths

**Suliau Noddfa**
*(Pob Oedfa am 10.00)*
*Medi*
**25** Parch. Richard Lewis.

*Hydref*
**2** Parch. Richard Lewis.
**9** Parch. Richard Lewis. Y Garn yn Uno.
**16** Parch. Guto Llywelyn.
**23** Cyfeillach.
**30** Parch. Richard Lewis. Cymundeb

**Cywiriad**
Enw merch fach Gwenann ac Andrew anwyd ar 23 Mai yw Efa Mai.

**Medal Hir Oes**
Llongyfarchiadau i Emyr Lloyd Jones, Cân y Gwynt, Maes-y-garn,am dderbyn Medal Gwasanaeth Hir Oes y Sioe Fawr ar ôl gweithio 60 mlynedd ym myd amaeth.



Llongyfarchiadau i Owain Llŷr (Bow) ar ennill chwaraewr dan 14 y Twrnament, Chwaraewr Mark Horwood y Twrnament a Chwaraewr y Twrnament! Gwych!



**Baton y Gymanwlad**
Orla Regan, fu yn aelod o dim hoci Bow Street, ac un fu yn chwarae dros Gymru yn cario baton Gemau'r Gymanwlad yn ardal Aberystwyth. Mae Orla a'i brawd Ruadhan yn chwarae hoci.

**Diolch**
Dymuna Shirley Rowlands, Tregerddan, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar ei phen blwydd arbennig ddechrau mis Gorffennaf. Diolch o galon i Shirley (Hinge) am drefnu parti bendigedig.

**Graddio**
Llongyfarchiadau mawr i Nia Phillips, 1 Cae'r Odyn, raddiodd yn Faglor mewn Gwyddoniaeth a sydd wedi derbyn o'r diwedd (oherwydd Cofid) ei chap a gown o Brifysgol Abertawe mewn seremoni a gynhaliwyd ar Orffennaf 20. Graddiodd mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol. Mae Gwynant a Lynn yn prowd iawn ohoni.

Llongyfarchiadau hefyd i Anest Eirug, gafodd Radd Dosbarth Cyntaf, yn y Gyfraith a Gwleidyddiaeth yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf.



Nia Phillips

Llongyfarchiadau i Llŷr Eirug ar ei ganlyniadau lefel A – dymuniadau gorau ar y cwrs Cymraeg a newyddiaduraeth yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau i Elen Morgan ar ei chanlyniadau TGAU.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Jonathan Eurig a'r teulu ar farwolaeth ewythr, sef y Parchg Haydn Thomas, Caerdydd.

ac â Lilian Magor, Tregerddan, a'r teulu ar farwolaeth chwaer - Gwenda Edwards yng Nghartref Tregerddan.

Trist oedd clywed am farwolaeth John Llewelyn Jones, Pwllheli, un o berchnogion y cwmni Huws Gray sydd â changen yn Bow Street, a brawd y Parchg Pryderi Llwyd Jones.



Cafwyd twrnameint arbennig i beldroedwyr ifanc eleni yn Bow Street. Diolch i Noel Mooney o Gymdeithas Pêl-droed Cymru am ei gefnogaeth.

Ceir teyrnged gan Gari Wyn iddo yn rhifyn Medi o *Barn.*

**Maes Ceiro a Cae Rhos**

Yr ydym yn dymuno pob dymuniad da i Mrs Ray Evans, 39 Maes Ceiro, wrth iddi ymgartrefu yn 23 Glyn Padarn, Llanbadarn Fawr. Wedi blynyddoedd ym Maes Ceiro mae'n rhyfedd iawn yma hebddi.

Y mae yna gryn dipyn o ddathlu pen blwyddi arbennig wedi bod ymysg trigolion Maes Ceiro yn ddiweddar. Dathlodd Mr Eric Davies ei ben blwydd yn 80 ar Awst y 23in ac fe ddathlodd Mr Robert Pugh ei ben blwydd yn 70 ar Awst y 29ain. Pen blwydd hapus iawn i'r ddau.

Llongyfarchiadau i Ffion Powell ar basio ei phrawf gyrru yn ddiweddar.

Fe gafodd y Parchg Elwyn Pryse lawdriniaeth ar ei lygad ychydig cyn yr Eisteddfod ac mae'n dda deall ei fod yn gweld cystal ag erioed erbyn hyn.

**Pen blwydd Arbennig**

Pob dymuniad da i Mrs Marian Beech Hughes, Maes-y-Garn, fydd yn dathlu ei phen blwydd yn 70 ar yr 16eg o Fedi.

**Pob Dymuniad Da**

Yr ydym yn anfon ein cofion at Gwynant Phillips, Cae'r Odyn, sydd yng nghanol cyfnod o driniaeth feddygol sylweddol ar hyn o bryd gan obeithio y daw pethau'n well iddo yn fuan.

**Cofion**

Anfonwn ein cofion at Gwyneth Hunkin sydd wedi cartrefu ym Mhlas y Cwm.




**Ennill yn Nhregaron**

Llongyfarchiadau i Lili Myrddin, Cae Rhos, ddaeth yn 2il ar yr unawd dan 12 ac 2il ar y cerdd dant dan 12 yn Nhregaron fis Awst.

**Elgan Philip Davies *Rhwng Heddiw a Ddoe***
**Recordiau Tŷ Glas, 2022**




Efallai mai gormodiaith fyddai dweud bod *Rhwng Heddiw a Ddoe* gan Elgan Philip Davies yn hirddisgwyliedig, ond *mae* degawdau ers i Elgan recordio'i ganeuon ddiwethaf. Yma mae 14 o gyfansoddiadau gwreiddiol, y mwyafrif helaeth yn newydd, ond yn eu plith ddwy gân a gyfansoddwyd ganddo yn yr 1970au. Un o'r rheini yw 'Plas-y-Bryniau', y gân gyntaf i gael ei chwarae ar Radio Cymru pan lansiwyd y gwasanaeth yn Ionawr 1977 gyda rhaglen Hywel Gwynfryn, *Helô Bobol!*.

Fel aelod gwreiddiol o Hergest, a ffurfiwyd yn 1971, roedd Elgan yn rhan o gynnwrf cerddorol y cyfnod rhyfeddol hwnnw pan ddaeth diwylliant ieuenctid Cymru i'r amlwg am y tro cyntaf. Recordiodd yn Rockfield ddwywaith a sawl gwaith yn stiwdio gyntaf Sain yng Ngwernafalau, Llandwrog, ac ymddangosodd ar y rhaglen chwedlonol *Disc a Dawn*. Roedd hefyd yn rhan o gynhyrchiad hanesyddol gwreiddiol *Nia Ben Aur* yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin yn 1974, ond ddwy flynedd yn ddiweddarach penderfynodd Elgan ymddeol o'r sin roc.

Ar ôl dyddiau Hergest trodd Elgan ei ysfa greadigol at ysgrifennu, gan gyhoeddi dros hanner cant o lyfrau rhwng 1985 a 2020 ar gyfer darllenwyr ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal ag oedolion. Am sawl blwyddyn bu'n ymwelydd cyson ag ysgolion ledled Cymru yn annog darllenwyr drwy siarad am ei lyfrau ac yn annog awduron ifanc mewn sesiynau Sgwad Sgwennu.

Er iddo adael Hergest ar ddiwedd 1976, parhaodd yr aelodau gwreiddiol i fod yn ffrindiau bore oes, ac ar *Rhwng Heddiw a Ddoe* daw Elgan, Geraint Davies, Delwyn Siôn a Derec Brown at ei gilydd am y tro cyntaf ers perfformio yng Ngŵyl y Faenol yn Awst 2004. Mae hen ffrindiau eraill yma hefyd: Charli Britton, Caryl Parry Jones, Graham Pritchard, Myfyr Isaac a Rhys Taylor. *Rhwng Heddiw a Ddoe* yw ymddangosiad olaf Charli Britton ar record.

Mae'r byd heddiw yn dra gwahanol i ddoe gobeithiol y saithdegau ac mae caneuon *Rhwng Heddiw a Ddoe* yn cofnodi llawer o newidiadau personol, cenedlaethol a rhyngwladol yr hanner can mlynedd diwethaf.

Lansiwyd y CD yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron.Mae 'Rhwng Heddiw a Ddoe' ar gael ar CD ac ar gyfryngau rhithiol fel Spotify, Amazon Music, Apple Music a'r gweddill.

**Maldwyn Pryse**

*Atgynhyrchir gyda chaniatâd BroAber360*






# Capel Bangor /Pen-llwyn

**Sioe Capel Bangor**

Ar ôl aros dwy flynedd mi ddaeth y dydd i ddathlu hanner canfed Sioe Capel Bangor. ‘Roedd 2020 i fod yn flwyddyn fawr ond bu rhaid gohirio a phlygu i’r drefn fel yn hanes popeth arall. Er hynny mi ddaeth y pwyllgor yn ôl at ei gilydd a mi aethpwyd ymlaen i drefnu Sioe 2022. Cafwyd llawer o anawsterau, methu llogi pabell yn bennaf ond diolch i Gymdeithas Goginan, Pwyllgor Sioe Tal-y-bont ac Alun Jenkins, Pontarfynach mi gafwyd digon o le i’r cynnyrch. Diolch hefyd i Andrew Greenhouse a’i gwmni am osod y byrddau, enghraifft wych o bawb yn cydweithio mewn crisis!

Llywydd y Sioe oedd Lynne Davies, Glasfryn, aelod o deulu sydd wedi bod yng nghlwm â’r trefniadau dros yr hanner can mlynedd. Bu ei thad yn ysgrifennydd a’i mam yn brysur iawn yn y babell am nifer o flynyddoedd ac mae pob aelod o’r teulu wedi bod yn weithgar iawn. Llais Lynn sydd wedi bod ar yr uchel seinydd ond eleni mi gafodd ysbaid a hyfryd oedd clywed llais Ffion ei nith yn cymryd ei lle. Gwnaeth Ffion waith campus iawn yn cadw y sioe i redeg, mae y dyfodol yn ddiogel gyda y genhedlaeth nesaf o’r teulu! Enillydd cwpan y Fron am yr anifail gorau ar y cae oedd Lois Jones, Pantyperan, Llandre – mae wedi cael tymor da iawn eleni. Llongyfarchiadau mawr.

Bu yna gystadlu brwd yn y babell hefyd a diolch i bawb a fu yn stiwardio ac yn cynorthwyo i wneud y diwrnod yn un pleserus iawn. Diolch i staff Ysgol Pen-llwyn am roi o’u hamser i ddod ag arddangosfa o waith y plant i’w arddangos yn y babell. Mae y traddodiad yma yn bodoli dros yr hanner can mlynedd ac yn ddiweddar mae y Cylch Meithrin yn dod a’u harddangosfa hwy hefyd. Enghraifft dda o’r gymuned yn cydweithio. Arddangosfa arall sydd yn boblogaidd iawn yw adran yr hen beiriannau gyda dros hanner cant o wahanol bethau yn cael eu harddangos. Diolch i Sion Davies a’i griw am y trefniadau trylwyr. Mae arddangosfa Iola Evans a’i chriw o Ganolfan Marchogaeth Rheidol hefyd yn boblogaidd iawn adeg yr egwyl dros ginio. Mae brwdfrydedd Iola ar y meic yn drawiadol iawn a mae yr holl blantos a phobl ifanc sydd yn cymryd rhan yn y sioe ar ben ei hun. Diolch o galon. Bu adran y defaid yn brysur iawn hefyd a diolch i Rheinallt a Caryl am eu gwaith trylwyr. Mae yr adran gwn hefyd yn sioe ar ben ei hun, llawer iawn o gwn brwdfrydig iawn yn cerdded y cae. Bu yn sioe arbennig iawn i ddathlu yr hanner cant a diolch i Rhydian, cadeirydd y pwyllgor, Andrea yr ysgrifenyddes, Bethan y drysoryddes a Nia ysgrifennyddes nawdd am eu holl waith yn dod a’r cyfan at ei gilydd. Mae ein diolch pennaf i deulu Cwmwythig am gael defnyddio y cae bendigedig yma ac am eu cydweithrediad fel teulu. Diolch o galon – mae dyled y pwyllgor yn fawr i chi.



Lynne Davies Llywydd y Sioe a’i nith Ffion yn mwynhau mynd oamgylch y cae yn un o’r hen geir yn yr arddangosfa.

**Marw cyn ficer**

Cawsom i gyd sioc enfawr i glywed am farwolaeth Hywel Jones, fu yn Ficer Capel Bangor a Goginan am gyfnod o 1982 ymlaen. Bu’n Archddiacon Ceredigion o 1990 i 2006.

**Priodas**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Robin a Heather o Gwmrheidol, a briodwyd ar ddydd Sadwrn, 3ydd o Fedi, yn Eglwys Dewi Sant yng Nghapel Bangor, dan ofal Y Barchedig Heather Evans. Ein cyfarchion cynnes i chi eich dau, a phob hapusrwydd yn y dyfodol.

**Priodas arian**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Iwan a Lowri, Tangeulan sy’n dathlu pum mlynedd ar hugain o fywyd priodasol ar ddydd Mawrth, 6ed o Fedi.

**Merched y Wawr – Cangen Melindwr**

Dechreuwyd ar weithgareddau’r tymor newydd ar nos Fawrth, Medi’r 6ed pryd y cyfarfu’r aelodau yn neuadd bentref Pen-llwyn, Capel Bangor. Croesawyd pawb gan Lynne Davies, y llywydd. Rhannwyd gwybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth swyddfa’r mudiad. Roedd yn noson brysur i Eleanor Jones, y drysoryddes, gyda phawb yn awyddus i dalu ei aelodaeth er sicrhau derbyn rhaglen y tymor. Bu’r swyddogion presennol yn brysur yn ystod yr egwyl dros yr haf yn paratoi rhaglen ddiddorol, gyda Rita Jones, yr ysgrifennydd yn rhoi trefn ar y cyfan.

Derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth un o aelodau cyntaf y gangen, sef Mrs Nan Howells a fu’n gefnogol iawn gan fod yn swyddog a hefyd yn cynnal rhai nosweithiau.

Croesawyd ein gwraig wadd, sef Angharad Jones gan y Llywydd. Un o Gapel Seion yw Angharad. Mynychodd ysgolion Capel Seion a Phenweddig a manteisiodd ar bob cyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau’r ysgolion ac yn ei phentref genedigol.

Diddorol oedd clywed am brofiadau Angharad wrth iddi geisio dewis llwybr galwedigaethol. Fodd bynnag, dyma benderfynu dilyn cwrs nyrsio a bu’n rhaid iddi adael Cymru er mwyn gwneud hyn. Aeth i Brifysgol Swydd Stafford lle derbyniodd hyfforddiant i fod yn nyrs plant a dyma ddechrau ar yrfa lwyddiannus iawn.

Manteisiodd ar bob cyfle a gafodd gan ddilyn un cwrs ar ôl y llall ac ennill cymwysterau lu. Mae ganddi brofiad o nifer o swyddi gan gynnwys bod yn nyrs ysgolion yng ngogledd Ceredigion. Ar hyn o bryd mae’n ddarlithydd Addysg Gofal Iechyd yn Aberystwyth. Clywsom ganddi am y gwaith a fu ynghlwm â sefydlu’r cwrs gradd nyrsio newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Da oedd deall y bu yna ddiddordeb mawr yn y cwrs hwn a bellach croesawyd hanner cant o fyfyrwyr i ddilyn y cwrs.

Mae’n amlwg bod diddordeb mawr gan Angharad yn ei chymuned a gweithiodd yn ddiflino er sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl yr ardal ac y bydd y gymdeithas ehangach yn gallu manteisio ar hyn.

Diolchodd y Llywydd i Angharad am ei chyfraniad a chafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau iddi cyn mwynhau lluniaeth ysgafn.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru



**Graddio**
Llongyfarchiadau i Yvonne Dryburgh ar raddio ar 11 Gorffennaf gyda gradd dosbarth cyntaf mewn seicoleg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Pen blwyddi Arbennig**
Llongyfarchiadau gwresog i Mrs. Doreen Davies, Glasfryn a fydd yn dathlu ei phen blwydd ar y 11eg o Fedi yn 90 oed. Mae Doreen yn cadw yn heini ac yn dal i fynychu'r capel a Sefydliad y Merched yn rheolaidd, a gwelwyd hi ar stondin y sefydliad eleni yn Sioe Capel Bangor.

Hefyd bu dathlu yn Cefnllidiart wrth i Mr. Fred Williams ddathlu penblwydd yn 80 oed yn yr haf. Mae yntau fel Doreen yn abl a iach i fynd o gylch ei bethau yn ddyddiol, ac os am gael cip ar y lorri yn teithio, rhaid fydd codi yn blygeiniol i'w gweld. Dymuniadau gorau i chi eich dau a phob un arall na wyddom amdanynt fu yn dathlu pen blwyddi arbennig yn ddiweddar.

**Llwyddiannau Addysgol:**
Llongyfarchiadau calonnog i bob un a fu yn llwyddiannus ym mha faes bynnag y bu iddynt lafurio ynddo.yn ystod y flwyddyn. Dymunwn bob rhwyddineb i chi wrth i chi ail gydio yn eich dewisiadau yn ystod y tymor yma. Rhwydd hynt, hefyd i bob plentyn bach sydd yn dechrau yn ei ysgol gynradd y tymor yma heb anghofio y rhai hynny sydd yn newid ysgol ac yn ymuno yn yr uwchradd am y tro cyntaf. mwynhewch bob profiad.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Christine a Sion Powell ar enedigaeth Macs Aled ar yr 28ain o Awst. Mae'r bychan yn ŵyr cyntaf i Margaret a Gerald Powell, Brynheulog, a hefyd i Eirian, 28 Stad Penllwyn a Nigel Y Felin. Mwynhewch y dathlu a phob dymuniad da i chwi fel teulu.

**Myfyriwr y Flwyddyn**
Llongyfarchiadau i Llyr Evans, Pwllcenawon ar ennill y clod o Fyfyriwr y Flwyddyn yng Ngholeg Llysfasi yn ddiweddar. Mae wedi gorffen ei gwrs erbyn hyn ac yn brysur iawn yn cyflawni gwaith y fferm, swydd y mae wrth ei fodd yn ei gwneud ers yn grwtyn bach iawn. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

**Eisteddfod Ceredigion, Tregaron**
Da iawn oedd gweld Ania Evans, Ardwyn yn cymryd rhan yn Sioe Maes G gyda Chlybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion. Hefyd Morgan Lewis, Llwyndafydd gyda Uwch Adran Aberystwyth yn ymuno yn y gwasanaeth y bore Sul cyntaf. Bu Manon Lewis, Llinos Rowlands a Iestyn Lewis hefyd yn canu gyda Chôr Ysgolion Ceredigion ar ddydd Mawrth yr un wythnos. Talentau'r dyfodol, da iawn chi bob un.

Bu Aelodau Capel Pen-llwyn yn brysur ar Sul cyntaf yr eisteddfod yn paratoi paned ym mhabell yr Eglwysi, hyfryd oedd sgwrsio a rhannu profiadau gyda phobl dros Gymru gyfan.

**Dyweddiad**
Da oedd clywed y newydd da am ddyweddiad Ieuan, Rhiwarthen Isaf, a Cerys o Bontrhydfendigaid. Ar ôl graddio yng Ngholeg Harper Adams maent eu dau wedi cael swyddi anrhydeddus gyda Chwmni "Storth" yn Lancaster, efallai rhyw ddydd y byddant yn dychwelyd i Gymru fach unwaith eto.

**Profedigaeth**
Wrth i'r Tincer gael ei anfon daeth y newydd trist am farwolaeth y ddiweddar Mrs. Nan Howells, Glyndwylan i law. Treuliodd Nan y flwyddyn ddiwethaf yng Nghartref Tregerddan wrth i'w iechyd ddirywio. Bydd cyfle y mis nesaf i ymhelaethu. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â›r teulu yn eu galar.

**Swydd**
Llongyfarchiadau i Iona Jones ar gael ei phenodi yn Swyddog Polisi UCAC – bydd yn dechrau yn ei swydd ddechrau Hydref.

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

Trydan WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Ysgol **Rhydypennau**

**Dal lan â'r digwyddiadau.**

**Garddwest yr ysgol**

Cynhaliwyd ein Garddwest eleni ar y 30ain o Fehefin. Diolch o galon i Bwyllgor Cymdeithas Rhieni Athrawon yr ysgol am drefnu ac i rieni a chyfeillion yr ysgol a fu'n barod iawn i gynnig cymorth yn ystod y noson hefyd. Mi fydd yr arian a godwyd yn gymorth sylweddol i brynu adnoddau a chyfarpar allweddol er mwyn cynnal addysg pob plentyn yn yr ysgol.

**Mabolgampau**

Cynhaliwyd ein mabolgampau eleni ar y 24ain o Fehefin. Y tîm buddugol oedd y tîm coch, Eleri; ail oedd y tîm melyn, Rheidol ac yn drydydd oedd y tîm glas; Ystwyth. Diolch i bawb am ymdrechu mor wych yn ystod y dydd.

**Tripiau Ysgol**

Braf oedd medru trefnu tripiau ysgol eto i'r plantos ar ddiwedd y tymor. Cafodd blwyddyn 5 a 6 ddiwrnod gwych lawr ym Mharc Hamdden Oakwood; treuliodd blwyddyn 1, 2, 3 a 4 diwrnod cofiadwy iawn lawr yng Ngheinewydd a theithiodd plant y Derbyn a'r Meithrin i'r 'Moody Calf' lawr wrth ymyl Llanarth. Diolch o galon i Bwyllgor Rhieni Athrawon yr ysgol am y cyfraniad ariannol sylweddol i gefnogi'r tripiau gan sicrhau profiadau arbennig i holl blant yr ysgol.

**Ymweliadau diwedd tymor**

I gyd-fynd gyda'u thema, treuliodd Blwyddyn 3 a 4 ddiwrnod gyda'r RNLI yn Y Borth. Yn ystod yr ymweliad cafodd y plant gyfle i ddysgu am y gwaith arbennig sy'n digwydd yno er mwyn diogelu ymwelwyr i'r arfordir. Diolch i Phillipa Davies a Staff yr RNLI am y croeso a'r cyngor.

Yn yr un modd, mwynhaodd blwyddyn 5 a 6 ddiwrnod yn y Llyfrgell Genedlaethol er mwyn darganfod wybodaeth pellach am y Cymry dewr a fentrodd draw i Batagonia ym 1865. Diolch i Rhodri Morgan am gynnal y dydd ac am hwyluso'r trefniadau o flaen llaw.



Ymweliad olaf plant blwyddyn 6 oedd taith gerdded o'r ysgol, trwy Llandre ac ar hyd ffordd Glan-frêd gyda'r bwriad o gyrraedd Ffatri Fêl Maesnewydd. Cafodd y plant brofiadau gwych ar lawr y ffatri. Uchafbwynt yr ymweliad oedd blasu a chymharu mêl lleol gyda mêl o'r Affrig ac i goroni'r ymweliad, cafodd pob plentyn jar o fêl blasus am ddim i fynd adref gyda nhw! Diolch yn fawr i Matt Suggett am ei gymorth i drefnu ymweliad mor arbennig.

**Ffarwelio**

Hoffa'r ysgol ddymuno pob hwyl i blant blwyddyn 6 llynedd wrth iddynt drosglwyddo i'w hysgolion uwchradd i gychwyn pennod newydd gyffrous ym Mlwyddyn 7. Cynhaliwyd Gwasanaeth arbennig iddynt yn neuadd yr ysgol; cafodd y criw gyfle i ffarwelio gyda'u ffrindiau i gyd a threulio





amser gwerthfawr yng nghwmni ei gilydd am y tro olaf yn ysgol Rhydypennau. Derbyniodd pob plentyn anrheg a thystysgrif arbennig fel atgof o'u hamser yn yr ysgol. Dymuniadau gorau iddynt oll.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: *@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*







# BLWYDDYN EITHRIADOL Y CYLCH CINIO

***Eisteddfod Ceredigion 2022 yn Nhregaron yn binacl blwyddyn gofiadwy***

Er mai dim ond o fis Ebrill hyd Gorffennaf y llwyddodd aelodau'r Cylch Cinio i ddod ynghyd eleni oherwydd amgylchiadau anarferol y Covid19, roedd y flwyddyn yn un aruthrol fawr yn hanes y Cylch Cinio.

**NAWDD**

Yn ôl ein harfer, ac i gydnabod cyfraniad arbennig o fewn ein cymunedau fe lwyddwyd eleni eto i noddi pump o'n papurau bro yn y dalgylch ac yn ychwanegol fe gyfranwyd £2500 tuag at hwyluso arhosiad y ffoaduriaid o'r Wcrain yng Ngwersyll yr Urdd.

**CADAIR**

Roedd eleni hefyd yn benllanw prosiect y bu'r Cylch yn paratoi ar ei chyfer ers sawl blwyddyn. Noddwyd y gadair yn Eisteddfod Ceredigion a gynhaliwyd ac wedi'r hir ymaros daeth y freuddwyd yn ffaith ar feysydd godidog Tregaron ym mis Awst eleni. Un o aelodau ffyddlon y Cylch Rees Thomas Bow Street a gafodd yr her o ddylunio a chreu'r gadair hardd ar gyfer Prifwyl Ceredigion. Cymerodd Rees at y dasg fel anrhydedd a braint ac mae crefftwaith y gadair dderw sy'n cynnwys elfennau o dderw'r gors o gors fochno sydd yn ôl, yr arbenigwyr yn 4000 o flynyddoedd o ran oed. Cymerodd Rees y sialens nol yn 2019 i greu cadair ar sail briff syml ond heriol o gyflawni cadair a fyddai yn gysurus mewn cartref modern yn ogystal a chymryd ei lle yn urddasol fel canolbwynt y sylw mewn seremoni ym mhafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol.



Y Gadair

**I Rees Thomas i ddiolch am gelf y Gadair Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022**

Tyfwn, fel afon Teifi – o hanes
Bryniau man ein geni:
Mawn y waun sydd ynom ni.

Wedi'r hesg a brwydr y rhyd, - mi godwn
Yma gyda'r barcud;
Lledwn, aberwn i'r byd.

Daw derw o'n daearau, o wreiddiau
Daw rhuddin ein geiriau;
Hen enaid ein gŵyl ninnau.

**Myrddin ap Dafydd**

**CINIO**

Trefnwyd achlysur ar ffurf cinio ar faes yr Eisteddfod i ddathlu'r gadair ar y prynhawn dydd Gwener, cyn y seremoni yn y pafiliwn ar gyfer aelodau'r cylch cinio gyda chynrychiolwyr o gylchoedd cinio eraill yng Nghymru. Derbyniodd y darlledwr adnabyddus Huw Edwards wahoddiad i fod yn siaradwr gwadd a chafwyd achlysur i'w gofio. Cafodd Huw a Wyn Mel, un o sylfaenwyr y Cylch Cinio, eu hurddo gan Orsedd y Beirdd mewn seremoni ar y maes ar fore dydd Gwener.

Yn y Cinio bu Rees Thomas yn olrhain stori'r gadair gan gyfeirio i'r ysbrydoliaeth ddod o rediad yr afon Teifi sy'n llifo drwy'r Sir a thrwy Gors Caron, nepell o Faes yr Eisteddfod, a bod y syniad o osod y gair Ceredigion yng Nghoelbren y Beirdd ar gefn y gadair wedi dod o gerrig yr Orsedd yng Nghastell Aberystwyth lle mae enwau'r siroedd wedi eu cerfio i mewn i bob carreg yn arddull unigryw Iolo Morgannwg. Mae'r Barcud yn nodwedd amlwg o'r gadair i ddathlu llwyddiant yr ymgyrch i achub y rhywogaeth rhag difancoll yn enwedig yn ardal Tregaron a pherthnasedd y frwydr honno i'n hymdrechion ni heddiw i achub yr Iaith a'r diwylliant Cymraeg.

Wrth gyflwyno Huw Edwards yn y cinio cyfeiriodd Wynne Melville Jones at rôl bwysig y Cylch Cinio yn rhoi cyfle i gymdeithasu yn Gymraeg gan nodi bod y Cylch wedi llwyddo dros y degawdau i gyfarfod yn ddi-dor (ag eithrio cyfnod y pandemig) ac i ddenu aelodau newydd i gymdeithas sydd gyda'r mwyaf llwyddiannus yng ngogledd Ceredigion.

Soniodd bod yna ansicrwydd ynglŷn â dechreuadau'r Cylch gan i'r llyfr cofnodion fynd ar goll nifer o flynyddoedd yn ôl pan aeth y Cylch ar wibdaith i Ben-uwch ac i'r noson droi allan yn 'fwy hwyliog na'r disgwyl'. Y gred oedd i'r Cylch gael ei sefydlu ar ddechrau'r wythdegau.

Taflwyd goleuni newydd ar mater yn y cinio ar faes y Brifwyl gan Phil Davies Tal-y-bont sydd wedi bod o hyd i gardiau aelodaeth o 1976 sy'n brawf bod dau sefydliad hynod wedi cychwyn y flwyddyn honno sef y Cylch Cinio a Chlwb y Ddafad Ddu. Wyn Mel oedd ysgrifennydd y Cylch Cinio a'r diweddar Dafydd Parry oedd ysgrifennydd y llall. Yn wir dyma ddarganfyddiad sy'n newid cwrs hanes bywyd cymdeithasol Cymraeg Aberystwyth.

Roedd Huw yn dilyn ei dad Yr Athro Hywel Teifi Edwards fel siaradwr gwâdd. Bu Hywel Teifi yn annerch y Cylch Cinio ar amryw o achlysuron ac roedd yn un o'n siaradwyr mwyaf poblogaidd. Soniodd Huw am bwysigrwydd gwreiddiau iddo ac am am ansawdd arbennig pridd Ceredigion fel meithrinfa nodedig ar gyfer bwrw gwreiddiau. Roedd yn medru olrhain ei deulu yn ôl i ardal Bwlch-llan ac mae nifer o Edwardiaid yn parhau'r cysylltiad teulu ar y Mynydd Bach heddiw.

Cyfeiriodd at ei falchder o fod yn gysylltiedig a Chadair Tregaron eleni gan gyfeirio yn benodol at grefftwaith Rees Thomas a chyhoeddodd, os na fyddai teilyngdod am y gadair y prynhawn hwnnw, y byddai yn cyflwyno £5000. I elusen o ddewis Rees. Roedd yn destun llawenydd mawr i weld Llŷr Gwyn Lewis yn eistedd yn enillydd teilwng iawn yn Seremoni'r Cadeirio yn y pafiliwn y prynhawn hwnnw.

John Williams Cadeirydd cyfredol Cylch Cinio Aberystwyth oedd yn llunio'r gweithgareddau yn y Cinio a chyflwynodd i Huw ddarlun o'r Barcud o waith Wynne Melville Jones sydd wedi ei cynnwys ar gefn y gadair.

Sulwyn Thomas aelod o Gylch Cinio Caerfyrddin a fu'n talu'r diolchiadau ar ddiwedd y Cinio. Cyfeiriodd at Huw yn cychwyn ei yrfa yn llanc ifanc a swil ar *Stondin Sulwyn* yn y BBC yn Abertawe a bod ei lwyddiant fel un o ddarlledwyr amlyca'r byd yn destun llawenydd i ni i gyd.

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
10.00-5.00
Brecwast
ar gael
01970 820 050
Pennau

# Ysgol **Pen-llwyn**

**Bookslam**

Llongyfarchiadau gwresog i dîm Bookslam a gystadlodd yng Nghystadleuaeth Cyngor Llyfrau Cymru. Trafodaeth ar y llyfr *The Infinite* (Canongate Books) ac yna cyflwyniad hysbyseb fideo ar *10 stories from Welsh History* (Rily).

Aelodau'r gystadlaeuaeth oedd ….Issy, Manon, Llinos, Anwen, Sandy, Gruff, David ac Ellie. Er inni beidio â chipio'r brif wobr, rydym yn falch iawn i chi fod yn cynrychioli Ceredigion yn y rownd derfyn ol. Profiad bythgofiadwy i'r plant!

**Sioe Aber**

Cynhaliwyd prosiect tra gwahanol eleni i ddisgyblion CA2 wrth i ni ymfalchio bod Sioe Aber yn ôl! Penderfynodd y plant ddysgu mwy am grefftau gwledig ac amaeth lleol. Roedd ganddon ni bedwar grŵp ffocws gwahanol yn dysgu sgiliau a hanes pwysig iawn. Crefftau gwledig-Aethom ati I edrych ar y cystadlaethau a phenderfynu ar gerfio ffon gerdded a ffon fugail ac yn ogystal a hynny creuwyd arwydd fferm I Mrs Evans! Cafwyd arbenigedd Mr T Owens wrth iddo ein rhoi ar ben ffordd ac roedd y llwyddiant wedi plesio-Un 1af ac un 2il!

Grŵp Coginio – Gyda chymorth ein cogyddes Miss Cathy crewyd campwaith o gacen i ddathlu 75 y sioe – Tractor oedd ffocws y gacen ond roedd manylion bach o gwmpas y tractor yn spesial-2il oedd ein safle!

Grŵp yr Wyau Oherwydd cyfyngiadau amaethyddol wrth ddelio gyda ieir penderfynon ni edrych a dysgu mwy am wyau yn benodol-gyda chymorth ac arbenigedd Wyn Fronfraith mwynheuodd y plant baratoi yr wyau a'u gosod mewn setiau-cafwyd llu o wobrau-2il, dau 3ydd ac un 4ydd!

Grŵp Delyth y Ddafad-Does dim yn well na chael bod gydag anifeiliaid a gyda bach o gymorth Tom Evans, Pendre, buodd na griw bodlon iawn yn yr Ysgol. Cafodd Delyth y ddafad Penfrith dod am ymweliad i'r Ysgol wythnos cyn y sioe er mwyn dod i'r arfer a dod i adnabod ein gilydd! AM HWYL! Buodd y plant yn arwain Delyth ac wrth gwrs yn ei pharatoi-lot o frwsio a golchi! Ben bore ar gae y Sioe daeth y criw ynghyd i baratoi Delyth ac wrth gwrdd yr wyn a'r hyrddod! Cafodd Delyth ddechrau da wrth iddi ennill dosbarth y ddafad orau ond i goroni y bore hi oedd Pencampwraig yr Adran ddefaid Penfrith! Da iawn chi blant profiad na fyddwch byth yn anghofio!




Roedd yna lwyddiant i unigolion gyda Hanna yn ennill 3ydd wobr, a Hanna a Branwen yn derbyn Cymeradwyaeth Uchel yn y babell.

Ar ddiwedd y tymor roedd rhaid ffarwelio gyda disgyblion blwyddyn 6. Cyfnod cyffrous iddyn nhw gyd wrth ddechrau ar siwrnau newydd yn yr ysgolion uwchradd felly dymunwn yn dda i Ianto, Izzy, Iestyn, Ellie, David a Sandy. Byddwn fel Ysgol yn gweld eich eisiau yn fawr rydych wir wedi bod yn flwyddyn arbennig.

**Sioe Capel Bangor**

Llongyfarchiadau i'r holl blant gafodd lwyddiant yn Sioe Capel Bangor eleni roedd eich gwaith yn edrych yn hyfryd. Diolch hefyd i griw o rieni fuodd yn brysur ar stondin yr Ysgol-gwaith tîm arbennig!





## Gyda'n gilydd – Ysgol **Penrhyn-coch** a **Phen-llwyn**

Mae Tymor yr Haf yn dymor prysur ac yn sicr bu'n gyfnod prysur i blant a staff Ysgolion Pen-llwyn a Phenrhyn-coch eleni. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau a tripiau a braf oedd gweld nifer o'r plant yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau. Da iawn chi!

Mae'r plant wedi mwynhau cystadlu mewn nifer o gystadlaethau chwaraeon. Braf yw cystadlu eto yn erbyn ysgolion cyfagos. Fe wnaeth tîmau hoci y ddwy Ysgol fwynhau cymryd rhan yr yr ŵyl hoci a drefnwyd gan Ceredigion Actif.

Ar y 9fed o Fehefin trefnwyd diiwrnod yn llawn gweithgareddau hwyliog yn ymwneud ag empathi yn y ddwy Ysgol. Rhaid canmol aeddfedrwydd y plant trwy gydol y diwrnod!

Diolch yn fawr iawn i Wasanaeth Cerdd Ceredigion am ymweld a'r ddwy Ysgol yn ddiweddar. Cyfle i blant flasu perfformiad oedd yn arddangos yr holl offerynnau sydd ar gael iddynt eu dysgu yn yr ysgol. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw – yn enwedig gweld yr athrawon yn dawnsio!

Roedd yn hyfryd i groesawu rhieni newydd i'r ddwy Ysgol. Fel Ysgol ffedarasiwn rydym yn edrych ymlaen i groesawu chi i gymuned glos Ysgol Pen-llwyn ac Ysgol Penrhyn-coch.

Penderfynwyd eleni i weddnewid ein diwrnod Mabolgampau traddodiadol a chynnal dau ddiwrnod o Gampau'r Gymanwlad. Rhannwyd y plant i wledydd gwahanol. Ar y diwrnod cyntaf

# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Darllen Dros Gymru**

Llongyfarchiadau gwresog i dîm Darllen Dros Gymru Blwyddyn 3 a 4 a gystadlodd yng nghystadleuaeth Cyngor Llyfrau Cymru. Profiad arbennig i'r plant oedd cael gweld eu hysbyseb yn y sinema, cwrdd a chwestiynu'r awdur Caryl Lewis ac wrth gwrs trafod a chystadlu yn y gystadleuaeth. Trafod y llyfr *Trio* gan Manon Steffan Ros, yna cyflwyniad am y llyfr *Criw'r Coed* (Y Lolfa). Rydyn yn ddiolchgar iawn i Ruth Jên (artist y llyfr) am ddod atom i ffilmio yn y Coed agwedd arbennig yn ein ffilm!

Mae Bl5a6 wedi bod ynghlwm a phrosiect cyffrous ynghlwm â garddio. Diolch i Jane a Naomi o Biosffer Dyfi am ddod i'r Ysgol a threfnu gweithgareddau hwyliog yn ymwneud â gardd yr ysgol gan gynnwys creu gwe fwyd, gwaith rhifedd a chreu boms blodau gwyllt. Diolch yn fawr iddynt am eu hamser.

Hefyd diolchwn i Glenys Morgan am ddod i ddysgu'r plant ar sut i osod blodau'r ardd ar gyfer canolbwyntio'n bwrdd bwyd. Mae'r plant wedi elwa o'r profiadau gwych yma.

Braf oedd gweld y sioe yn nôl. Braf oedd gweld gymaint o ddisgyblion Ysgol Penrhyn-coch yn llwyddo yng nghystadlaethau celf a chrefft. Nico, Gruff a Joshua yn cipio'r wobr gyntaf, gyda Gruff yn ennill Gorau yn y Sioe. 2ail i Elan, ac Emilie, 3ydd i Osian, Anest, Sïon a Gwenno. Cymeradwyaeth uchel i Mabli, Ryan a Telyn. Llongyfarchiadau i bawb!



Da iawn i dîm rygbi yr ysgol am chwarae'n arbennig o dda yn nhwrnament rygbi yr Urdd, rhanbarth Ceredigion. Roeddent wedi mwynhau!

**Ffarwelio**

Ar ddiwedd y tymor roedd rhaid ffarwelio gyda disgyblion blwyddyn 6. Cyfnod cyffrous iddyn nhw gyd wrth ddechrau ar siwrnau newydd yn yr ysgolion uwchradd felly dymunwn yn dda i Lleucu, Elan, Anest, Emilie, Aron, Cayden, Ollie, Olly, Thomas a Harry. Byddwn fel Ysgol yn gweld eich eisiau yn fawr rydych wir wedi bod yn flwyddyn arbennig.

Hoffwn hefyd ddiolch i Gwenelen Hughes am ei gwaith caled fel cynorthwywraig yn y Cyfnod Sylfaen oherwydd mae Miss Hughes wedi penderfynu gorffen ei chyfnod gyda ni ym Mhenrhyn-coch. Dymunwn pob hapusrwydd iddi.

**Sioe Frenhinol**

Llongyfarchiadau i deulu ap Llywelyn ac i Ifan Edwards am gystadlu yn yr adran Celf a chrefft yn y Sioe fawr eleni. Braf gweld Ifan a Gwenno yn derbyn gwobrau!!









cynhaliwyd diwrnod o chwaraeon tîm. Braf oedd gweld y plant yn cydweithio yn frwdfrydig. Yna ar yr ail ddiwrnod cynhaliwyd cystadlaethau traddodiadol y Mabolgampau ond ar ffurf cylched ar gae pêl-droed Penrhyn-coch. Ar yr ail ddiwrnod, cafodd yr Ysgol ymwelydd pwysig i ddechrau'r diwrnod – sef Mr Urdd. Roedd y plant (â'r rhieni) wedi gwirioni wrth groesawu Mr Urdd gan ymfalchïo taw fe yw Masgot Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad! Bu'r cystadlu yn frwd yn yr haul crasboeth ond y wlad fuddugol oedd De Affrica.

Yr unigolion â'r pwyntiau uchaf oedd Ysgol Penllwyn – Issy Cooper a Iestyn Jones ac ym Mhenrhyn Elan Rowlands ac Aron Bishop. Llongyfarchiadau iddynt. Wedi'r cystadlu cafwyd picnic bendigedig ar gae yr Ysgol. Diolch yn fawr i Gymdeithas y Rhieni am drefnu a pharatoi'r lluniaeth. I goroni cafwyd perfformiadau arbennig gan blant yr Ysgol yn canu – Can yr aborijini, Gyda'n gilydd ond i enwi rhai! Roedd hi'n ddiwrnod llwyddiannus a braf gweld pawb yn cymdeithasau eto gyda'i gilydd. Diolch yn fawr i deulu Jenkins Garej Tŷ Mawr am sicrhau cyfrianiad o £500 wrth gwmni Nisa i drefnu'r digwyddiad-cefnogaeth werthfawr iawn i ni!

Roedd cyffro mawr pan aeth criw o ddisgyblion Bl5a6 o'r ddwy Ysgol i'r ymarfer cyntaf yn Felin-fach fel rhan o gôr yr Eisteddfod Genedlaethol. Cafon nhw brofiad arbennig wrth ganu ar lwyfan y pafiliwn yn ystod wythnos yr eisteddfod!

Braf gweld criw o blant o'r ddwy Ysgol yn perfformio ar lwyfan Ceredigion yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn Nhregaron. Roeddech wrth eich boddau ac wedi gwneud eich rhieni a'r staff yn browd ohonoch.

Roedd y plant a'r staff yn hynod o gyffrous am gael mynd ar drip Ysgol eto.

Teithiodd y ddwy Ysgol i Sir Benfro. Aeth blynyddoedd 3 i 6 Ysgol Penrhyn-coch a holl blant Ysgol Pen-llwyn i Heatherton. Am hwyl a sbri! Aeth cyfnod Sylfaen Ysgol Penrhyn-coch i Fferm Ffoli. Roeddent wrth eu bodd yno. Tripiau i'w cofio!

# Tasg y Tincer


Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau'r haf! Mae cymaint o ddigwyddiadau cyffrous wedi'u cynnal yn ystod y misoedd diwetha, on'd oes? Sawl un ohonoch chi fuodd yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd, yng nghanol y tywydd poeth? Neu beth am garnifal y Borth? Welsoch chi'r ceir yn gwibio heibio yn y rali fawr yn ddiweddar? A beth am y Steddfod Genedlaethol yn Nhregaron ddechrau Awst? Roedd honno'n wych, a phobl o bob oed wedi heidio yno yn eu miloedd! Beth bynnag fuoch chi'n ei wneud, gartref yn ardal y Tincer neu ar wyliau ym mhen draw'r byd, gobeithio i chi gael amser grêt, ac bod chi 'nôl erbyn hyn yn mwynhau cwmni eich ffrindiau i gyd.

Da iawn, bawb, am eich gwaith lliwio hyfryd efo'r dasg ddiwetha: Ania Wynn Hughes, Penrhyn-coch; Safhiya Layton, Y Borth; Miriam Thomas, Cwmerfyn; Heledd Rees, Aberystwyth; Math a Beca, Llanuwchllyn.


Safhiya

Dy lun di, Safhiya, ddaeth o'r het yn gyntaf – hwrê mawr i ti, a daliwch ati, bawb!

Fuoch chi ar daith mewn awyren yn ystod yr haf, neu ar long fawr ... neu mewn balŵn aer poeth? Rhowch gynnig ar liwio'r tri. Tybed i ble mae'r teithwyr yn mynd? Pa un yw eich ffefryn?



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Hydref 1af. Ta ta tan toc, a phob hwyl ar y tymor newydd yn yr ysgol!

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >

*Rhif 451 | Medi 2022*